

# Caergybi: Deall Nodweddion Trefol



 Cadw



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256 000  
E-bost: [cadw@llyw.cymru](mailto:cadw@llyw.cymru)

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2019  
Digidol ISBN 978-1-78903-535-3  
© Hawlfraint y Goron 2019, Cadw, Llywodraeth Cymru WG36757

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**OGL**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid ceisio caniatâd deiliad yr hawlfraint briodol, gan gynnwys Archifau Ynys Môn, Cadw, Cyngor Sir Ynys Môn, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Casgliad Peter Davis, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Croeso Cymru.

Clawr blaen, clocwedd o'r prif lun:  
Caergybi o gofeb Skinner tua 1850 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru); Stryd Williams (© Hawlfraint y Goron: CBHC); Eglwys Cybi Sant (© Hawlfraint y Goron: CBHC); Tŷ Cyfle (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Clawr cefn, o'r brig: Bryn Goleu (© Hawlfraint y Goron: CBHC); Stanley House (© Hawlfraint y Goron: CBHC); Seaborne Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ

Caergybi:  
Deall Nodweddion  
Trefol

### **Cydnabyddiaethau**

Mae Cadw yn ddiolchgar am yr help a gafwyd gan dîm cadwraeth Cyngor Sir Ynys Môn, yn enwedig Nathan Blanchard, ac aelodau o'r gymuned leol, yn benodol yr hanesydd lleol a Llywydd yr Amgueddfa Arforol, y diweddar John Cave MBE. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) a ddarparodd y lluniau ar gyfer yr astudiaeth hon.

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>	<b>Nodweddion Adeiladu</b>	<b>35</b>
Nodau'r Astudiaeth	5	Patrymau Datblygiadau	35
<b>Cefndir Hanesyddol</b>	<b>6</b>	Deunyddiau a Manylion Adeiladu	47
Hanes Cynnar	6	Adeiladu a Pheirianeg	54
Dechrau Caerdybi Fodern	8	<b>Ardaloedd â Nodweddion</b>	<b>55</b>
'The Glory of the Principality?': Caerdybi yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg	11	1. Y Canol: Y Craidd Trefol	55
Ffordd Newydd, Harbwr Newydd: Gwella Cysylltiadau	11	2. Y Canol: Datblygiadau Preswyl	63
Cyfathrebu	11	3. I'r Gogledd o Ganol y Dref	65
Dyfodiad y Rheilffordd	13	4. Gorllewin a De-orllewin Caerdybi	67
Y Morglawdd a'r 'Harbwr Noddfa Mawr'	14	5. De Caerdybi a Kingsland	72
'The Rise and Progress of Holyhead': Mae'r Dref yn Ymffurfio	16	6. Porth-y-Felin a Gogledd Caerdybi	75
Yr Ugeinfed Ganrif	23	7. Ynys yr Halen a'r Harbwr Mewnol	80
<b>Tirwedd Hanesyddol</b>	<b>28</b>	8. Yr Harbwr Allanol, Soldier's Point a'r Lan Ogleddol	83
Diwedd y Ffordd, Ymyl y Tir	28	9. London Road	86
Defnydd Tir a Pherchenogaeth	31	10. Turkey Shore a Morawelon	88
Trafnidiaeth	34	<b>Datganiad Arwyddocâd</b>	<b>90</b>
		<b>Ffynonellau Dethol</b>	<b>91</b>
		<b>Ôl-nodion</b>	<b>92</b>

## Rhestr o Fapiau tudalennau 94–107

1. Map y degwm o Gaerdybi, tua 1840
2. Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans 1899
3. Pob Ardal â Nodweddion
4. Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau Hanesyddol
5. Y Canol: Y Craidd Trefol (1)
6. Y Canol: Datblygiadau Preswyl (2)
7. I'r Gogledd o Ganol y Dref (3)
8. Gorllewin a De-orllewin Caerdybi (4)
9. De Caerdybi a Kingsland (5)
10. Porth-y-Felin a Gogledd Caerdybi (6)
11. Ynys yr Halen a'r Harbwr Mewnol (7)
12. Yr Harbwr Allanol, Soldier's Point a'r Lan Ogleddol (8)
13. London Road (9)
14. Turkey Shore a Morawelon (10)





# Cyflwyniad

## Nodau'r Astudiaeth

Mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac ymdeimlad o frogarwch. Mae gan bob lle hanes unigryw, felly mae gan bob lle nodweddion hanesyddol unigryw, sy'n ased grymus o ran adfywio. Mae ymateb i nodweddion lleol yn amcan sy'n bwysig i gynllun da; gall ei gynnal gyflwyno buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae nodweddu trefol yn ddull a all ein helpu i ddefnyddio nodweddion hanesyddol i greu llefydd cynaliadwy a nodedig ar gyfer

y dyfodol. Ei nod yw disgrifio ac egluro nodweddion hanesyddol trefi, rhoi ffocws i natur unigryw leol a helpu i wireddu gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cynllunio, adfywio a chadwraeth cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio nodweddion hanesyddol unigryw trefi unigol ac yn nodi amrywiaeth y nodweddion ynddynt. Mae'n edrych ar hanes tref ac yn nodi ei mynegiant mewn patrymau gofod a chysylltiadau ac mewn traddodiadau adeiladu, sy'n rhan hanfodol o nodweddion hanesyddol.

*Harbwr Caergybi, yng nghysgod y morglawdd mawr yn y tir blaen, gyda'r dref y tu hwnt iddo (© Hawlfraint y Goron (2019) Croeso Cymru).*



# Cefndir Hanesyddol



*Uchod: Mae'n debyg i gaer Rufeinig gael ei sefydlu yng Nghaergybi ar ddiwedd y bedwaredd ganrif.*

*Yn ddiweddarach cysgodai ei muriau eglwys Cybi Sant. Mae olion dau o dyrau'r gaer sy'n wynebu'r môr i'w gweld yn yr engrafiad hwn sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru)*

*Dde: Rhan o'r mur Rhufeinig yng Nghaer Cybi sy'n dangos ei haenau igam-ogam nodedig. Y gaer Rufeinig yw'r dystiolaeth gynharaf o anheddiad yng Nghaergybi (© Haulfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*

## Hanes cynnar

Daeth Caergybi i amlygrwydd fel tref borthladd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, cyflawnodd y statws hwnnw yn dilyn hanes hir yn seiliedig ar gysylltiadau â'r tir a'r môr sydd wedi helpu i lywio ei datblygiad ac sy'n dal i ddylanwadu ar ei chymeriad heddiw. Daw'r dystiolaeth gyntaf o feddiannaeth uniongyrchol ar safle Caergybi o'r cyfnod Rhufeinig. Sefydlwyd caer Rufeinig Caer Cybi fel rhan o amddiffynfeydd arfordirol Britania Rufeinig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif. Mae'n debyg iddi gael ei hadeiladu fel rhan o'r gwaith a wnaed i ad-drefnu amddiffynfeydd Rhufeinig o dan Theodosius (OC 379–OC 395), gan ateb y bygythiad o ymosodiadau gan Wyddelod ar rannau gorllewinol Britania. Yn ôl pob tebyg roedd wedi'i chysylltu'n strategol â cheyrydd



arfordirol eraill, megis *Segontium*, yn ogystal â gosodiadau eraill gerllaw – sef y tŵr gwyllo ar Fynydd Tŵr a'r gaer bosibl yn Aberffraw. Mae'n debyg bod y gaer yn agored ar yr ochr sy'n wynebu'r môr, sy'n ein hatgoffa o gynllun ceirydd o faint tebyg ar y Rhein.<sup>1</sup>





*Mae'r anheddiad cytiau ar Fynydd Tiŵr yn dyddio o'r Oes Haearn ac mae'n un o nifer o safleoedd cymhanesyddol o amgylch Caergybi (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*

Mae'n bosibl bod elfennau eraill yn perthyn i hanes cynnar Caergybi, am fod gwaddol cynhanesyddol pwysig yn y dirwedd o'i hamgylch. Ceir crynodiad cyfoethog o safleoedd o Oes Newydd y Cerrig, yr Oes Efydd a'r Oes Haearn, gan gynnwys bryngaer sy'n dyddio o'r Oes Haearn ar Fynydd Tŵr a sawl grŵp o aneddiadau cytiau crwn o amgylch gwaelod y mynydd. Fodd bynnag, y gaer Rufeinig yw'r cyfraniad pendant cyntaf at ddatblygiad anheddiad trefol nodedig.

Yn ôl pob tebyg, rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r gaer ar ôl diwedd y goresgyniad Rhufeinig ar ddechrau'r bumed ganrif ac, felly, roedd yn segur erbyn cyfnod Cybi Sant ar ddechrau'r chweched ganrif. Ar yr adeg honno, ystyriwyd bod ei muriau yn addas i nodi ffin caeadle mynachaid a roddwyd i Cybi gan Maelgwn, rheolwr Gwynedd. Mae olion y muriau Rhufeinig a'r eglwys ddiweddarach a adeiladwyd ar safle mynachdy Cybi i'w gweld yng nghanol y dref fodern.

## Dechrau Caergybi Fodem

Prin yw'r dystiolaeth, os oes unrhyw dystiolaeth o gwbl, am fywyd yn yr ardal yn y cyfnod canoloesol. Y ddwy eglwys yn y gaer yw'r strwythurau hynaf sydd wedi goroesi. Mae'r ffaith bod dwy eglwys i'w cael mewn un fynwent yn awgrymu gweithgarwch Cristnogol cynnar ar y safle. Fodd bynnag, mae'r adeiladwaith cynharaf y gellir ei ddyddio yn eglwys Cybi Sant yn perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn Eglwys y Bedd, ymhell ar ôl cyfnod Cybi

ei hun. Er hynny, mae'r ffaith bod y dref wedi'i henwi ar ôl y sant yn awgrymu ei fod yn 'give celebrity to the place'.<sup>2</sup> Mae'n debyg i'r eglwys gadw ei statws mynachaid tan gyfnod Diddymiad y Mynachlogydd, ac mae adeiladwaith helaeth sy'n dyddio o'r bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg yn awgrymu bod yr ardal yn ddigon ffyniannus ar ddiwedd y cyfnod canoloesol er mwyn iddi fuddsoddi'n sylweddol mewn gwaith adeiladu. Cafodd unrhyw adeiladau mynachaid domestig a oedd yn dal i sefyll ar ôl Diddymiad y Mynachlogydd eu dymchwel fesul tipyn dros y ddau gan mlynedd diwethaf.<sup>3</sup>

*Saif eglwys Cybi Sant ar safle'r anheddiad mynachaid a sefydlwyd gan y sant ar ddechrau'r chweched ganrif neu'n agos ato. Er bod rhywfaint o'r adeiladwaith yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg, mae'r rhan fwyaf yn dyddio o'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae Eglwys y Bedd, wrth ochr Eglwys Cybi Sant a'r tu mewn i furiau'r gaer, yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ond dywedir mai hun yw safle bedd y sant (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*







*Dengys y llun hwn o Gaergybi gan Francis Place, sy'n dyddio o 1696, glwstwr o dai o amgylch yr eglwys ac yn Newry, sy'n awgrymu ei fod yn bentref yn hytrach na thref (Ffynhonnell: Holyhead Central: Conservation Area Character Appraisal, Cyngor Sir Ynys Môn, 2005).*

Ceir cyfeiriadau dogfenol, y mae'n anodd dod o hyd iddynt, sy'n awgrymu bod Caergybi wedi chwarae rôl fel porthladd yn ystod yr Oesoedd Canol. Ond dim ond ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg y daeth y porthladd i amlygrwydd fel y prif borth i'r llywodraeth gyfathrebu â Dulyn tua 1576. Felly, cafodd statws swyddogol fel tref bost a phorthladd, a'r cysylltiadau ag Iwerddon oedd prif sail unrhyw ffyniant a brofodd yn y ddeunawfed ganrif o hyd pan gafodd ei disgrifio fel 'the great thoroughfare between both kingdoms.'<sup>14</sup> Er gwaethaf ei rôl bwysig fel gorsaf llong bost ar gyfer Iwerddon, nid oedd gan Gaergybi harbwr go iawn nac unrhyw ffurf drefol adnabyddadwy. Mae llun dyfrlliw sy'n dyddio o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg yn cofnodi sawl tŷ sylweddol mewn clwstwr o amgylch yr eglwys ac yn Newry, ond mae maint yr anheddiad yn awgrymu pentref yn hytrach na thref.<sup>5</sup> Mae braslun gan Lewis Morris ychydig ddegawdau yn ddiweddarach hefyd yn dangos Caergybi fel anheddiad bach ac anffurfiol. Dengys glystyrau o dai, sy'n aml yn sylweddol, wrth fynedfa'r dref sy'n wynebu tua'r tir ac yn agos at y lan i'r

gogledd, sydd wedi'u cysylltu gan linell afreolaidd o waith adeiladu ar hyd y ffyrdd rhyngddynt.<sup>6</sup>

Yn 1784, ymddengys nad oedd Caergybi yn ddim mwy na phentref, a oedd yn cynnwys 'a straggling confused heap of thatched houses built on rocks.'<sup>7</sup> Hyd yn oed yn 1793, 'Holyhead is a small town, and seems to have nothing to boast of ... except the remains of some Roman walls which are seen in the church yard.'<sup>8</sup> Serch hynny, er ei bod yn fach, roedd Thomas Pennant wedi nodi ddeng mlynedd ynghynt fod y dref yn gyrchfan i gryn nifer o '... passengers to and from the kingdom of Ireland; and is the station of the pacquets, five of which are in constant employ; are stout vessels, and well manned.'<sup>9</sup>

Erbyn yr adeg hon roedd eisoes arwyddion o uchelgais newydd i ddatblygu'r dref. Yn 1770, ceisiwyd sefydlu Caergybi fel gyrchfan gwyliau lle y gallai ymwelwyr o Iwerddon aros. Sefydlwyd bathondy dŵr môr yn y fomant gysgodol rhwng y dref ac Ynys yr Halen (a goffeir o hyd gan yr enw Front Bath Street), ac adeiladwyd tai i ymwelwyr

*Mae'r olygfa hon o Gaergybi yn 1737, a dynnwyd gan Lewis Morris ar gyfer Cambria's Coasting Pilot, hefyd yn dangos anheddiad bach ac anffurfiol (Drwy garedigrwydd Swyddfa Hydrograffig y DU).*



gerllaw yn Marine Square, y mae rhai ohonynt i'w gweld o hyd. Crëwyd gerddi pleser ar Ynys yr Halen hefyd. Fel rhan o'r un fenter, safai rhandy a elwid yn Barlyrau (a ddymchwelwyd amser maith yn ôl) ar Market Hill ger tafam y Caernarfon Castle a darparai leoliad ar gyfer cwmnïau theatr a chyfarfodydd eraill. Yn yr un flwyddyn, adeiladwyd

Gwesty'r Eagle and Child ar gyrion y dref, mewn lleoliad cyfleus ar gyfer y fomant, lle y crëwyd yr harbwr mewnol yn ddiweddarach, a'r ffordd bost (Kingsland Road bellach) ar draws yr ynys drwy Four Mile Bridge. Roedd y ffordd bost wedi'i thro'i'n ffordd dyrpeg yn 1765 a chyflwynwyd gwasanaeth coets fawr rheolaidd yn 1785.<sup>10</sup>

*Mae rhan o Westy'r Eagle and Child, a adeiladwyd yn 1770, i'w gweld o hyd yn Victoria Terrace*  
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).



*Marine Square, lle mae rhai o'r tai a adeiladwyd ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif ar gyfer ymwelwyr â baddonny dŵr môr a gerddi pleser newydd Caergybi wedi goroesi*  
(© Hawlfraint y Goron: CBHC).





## 'The Glory of the Principality?' Caergybi yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

### Ffordd Newydd, Harbwr Newydd: Gwella cysylltiadau

*'Owing to the very extensive intercourse which now subsists between the two kingdoms, the town has, within the last few years, rapidly increased in extent and improved in appearance, being now large and well-built, and affording ample accommodation of every kind for the numerous passengers who embark at the port.'*

Samuel Lewis, 1833<sup>11</sup>

Ni ellir ond dyfalu p'un a fyddai'r ymgais hwn i ddatblygu Caergybi fel cyrchfan gwyliau wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, am iddi gael ei goddiweddyd yn gyflym gan ddigwyddiadau yn dilyn Deddf Uno ag Iwerddon 1800. Roedd Caergybi eisoes wedi'i sefydlu fel y prif gyswllt ag Iwerddon ac atgyfnerthwyd y rôl hon ar ôl hynny mewn nifer o fentrau pwysig a wnaeth gyfraniad sylweddol at sicrhau ffyniant y dref ac a roddodd iddi ei chymeriad presennol.

Un o'r mentrau hyn oedd ffordd Telford, neu'r ffordd seneddol o Lundain i Gaergybi (A5). Dechreuwyd adeiladu'r ffordd yn 1815 a chwblhawyd y rhan olaf — sef y bont dros Afon Menai — yn 1826. Croesai'r hen lwybr o Bont Menai i Gaergybi i Ynys Gybi wrth Four Mile Bridge, lle roedd y culfor ar ei gulaf, ond dilynai'r ffordd newydd lwybr mwy uniongyrchol i'r dwyrain o'r hen ffordd, gan groesi rhan lawer ehangach o'r culfor ar draws sam newydd.

Gwellodd y ffordd newydd gysylltiadau tua'r tir yn sylweddol. Yn gysylltiedig â hi roedd prosiect arall gan y llywodraeth a oedd yn canolbwyntio y tro hwn ar y môr. Dechreuwyd ar raglen o waith y bwriadwyd iddi wella traffig arfordirol yn dilyn adolygiad o'r llwybr ar gyfer post o Iwerddon yn 1801. Dechreuodd y gwaith drwy adeiladu goleudy Ynys Lawd yn 1809 ac arweiniodd at greu harbwr newydd, a awdurdodwyd gan Ddeddf Seneddol yn 1810. Roedd mawr angen yr harbwr newydd hwn gan fod Caergybi yn cael '... its chief support and consequence from the expenditure of passengers passing to and from Ireland, it being the station of six government packets which convey the London and other English mails to the sister kingdom',<sup>12</sup> ond gallai'r llongau post gael eu dal yn yr harbwr presennol gan wyntoedd y dwyrain, neu gael eu hatal rhag mynd i mewn gan wyntoedd y gorllewin, eu difrodi gan ymchwydd y môr yn yr harbwr neu



*Dengys yr engrafiad hwn sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y rhes o adeiladau swyddogol ar Ynys yr Halen a'r pier ar ôl iddynt gael eu cwblhau yn 1824 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*

gael eu gadael ar y tir am wyth awr allan o bob deuddeg.<sup>13</sup> Rhoddodd Jonathan Swift ddisgrifiad addas o'r broblem yn 1727: 'Lo here I sit at holy head/ with muddy ale and mouldy bread / I'm fastened both by wind and tide / I see the ships at anchor ride.'<sup>14</sup>

Penodwyd John Rennie yn beiriannydd ar gyfer yr harbwr newydd a chreodd hafan sylweddol drwy adeiladu waliau cei ar Ynys yr Halen a'r culdir a'i cysylltai â'r lan, yn ogystal â phier (Pier y Morlys) a ymestynnai i'r dwyrain o Ynys yr Halen. Bu farw John Rennie yn 1821, sef y flwyddyn y cwblhawyd y pier ei hun, ac wedyn cymerodd Thomas Telford gyfrifoldeb am brosiect yr harbwr. Rhoddodd gynlluniau Rennie ar gyfer rhes drawiadol o adeiladau swyddogol ar Ynys yr Halen ar waith, a oedd yn cynnwys ty'r peiriannydd, y tollty, swyddfa'r harbwr, y depo ar gyfer storffeydd Swyddfa'r Bost a goleudy. Yn 1824, cwblhawyd y rhes hon gan Fwa'r Morlys, a adeiladwyd yn unol â chynlluniau Thomas Harrison i goffáu ymweliad Sior IV â Chaergybi (1820–30) yn 1821

*Bwa'r Morlys, a gynlluniwyd gan Thomas Harrison ac a adeiladwyd yn 1824 i goffáu ymweliad Sior IV â Chaergybi (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*

a gweithredai fel man terfyn symbolaidd y ffordd newydd. Y tu ôl i'r adeiladau ffurfiol hyn roedd bythynnod, storffeydd a gweithdai. Erbyn i'r harbwr gael ei gwblhau, roedd agerlongau wedi'u cyflwyno ar y daith drosodd i Ddilyn.

Cwblhawyd parhad prosiect yr harbwr o dan Telford drwy adeiladu doc sych ar ochr ddeheuol yr harbwr, a oedd wedi'i amddiffyn gan ail bier (pier y de) ac a oedd yn cynnwys caeadle â wal o'i gwmpas. Cafodd cysylltiadau trafniadaeth o amgylch yr harbwr eu gwella hefyd: 'a new line of road has been constructed under the walls of the town, upon the shore of the traeth, or sandy estuary which forms the harbour, extending more than a mile along a lofty artificial embankment, from the entrance to the town to the commencement of the pier.'<sup>15</sup> Rhoddai'r ffordd fynediad uniongyrchol i'r pier o ffordd newydd Telford ac roedd hefyd yn ei chysylltu â'r doc sych. Ar ôl cael ei gwella yn ddiweddarach, daethpwyd i'w galw'n Victoria Road a Turkey Shore Road.



## Dyfodiad y rheilffordd

*Holyhead will soon be looked upon as the principal key to the Atlantic. The vast trading interest of America, and all the countries lying westward, will without doubt, avail themselves of the facilities of this port, and its railway communication with everywhere in Great Britain'.*

E. Parry, 1848<sup>16</sup>

*Holyhead being now joined by the railway with London, Leeds, Birmingham, Manchester and all the manufacturing districts of the kingdom, a large portion of the golden trade of commerce must naturally flow through its port. ... it will become the glory of the principality'.*

Thomas Jackson, 1853<sup>17</sup>

Dyfodiad y rheilffordd, y datganwyd ei bod yn '... extraordinary display of enterprise and wealth,'<sup>18</sup> oedd y cam mawr nesaf yn natblygiad y dref. Nododd ddiwedd cyfnod segur rhwng 1839 a 1850 pan oedd Lerpwl yn gyfrifol am gyflawni contract y post; roedd cysylltiad rheilffordd wedi bod rhwng Lerpwl a Llundain ers 1838. Adferodd Caergybi ei safle yn dilyn casgliadau comisiwn a sefydlwyd yn 1842 i benderfynu ar y llwybr gorau ar gyfer y post rhwng Llundain a Dilyn. Ei mantais fawr oedd ei bod yn agosach i Iwerddon a bod yn rhaid i longau a oedd yn hwylio allan o Lerpwl fynd heibio i arfordir gogledd Cymru a allai fod yn beryglus. Gwrthodwyd hawliad croes gan Borthdinllaen a dynodwyd Caergybi fel y porthladd swyddogol ar gyfer Iwerddon a therfynfa'r rheilffordd newydd, sef llinell Caer i Gaergybi. Pasiwyd Deddf Rheilffordd Caer a Chaergybi yn 1884. Er i'r

rheilffordd gyrraedd Caergybi yn 1848, roedd yn rhaid i'r teithwyr adael y trên ym Mangor, croesi Pont Menai ac wedyn mynd ar drên arall yn Llanfair. Nid tan 1850, pan agorodd Pont Britania, yr oedd yn bosibl teithio'n uniongyrchol o Lundain. O 1856 ymlaen, roedd y rheilffordd yn cael ei gweithredu gan Reilffordd Llundain a'r Gogledd-orllewin (LNWR).<sup>19</sup> Adeiladwyd yr orsaf gyntaf ger gwaelod Kingsland Road, ond erbyn 1856 sefydlwyd y derfynfa yn agosach i'r harbwr (gyferbyn â gwaelod Holborn Road, yn agos at dafamdaï enwog y Five Sisters). Agorodd estyniad tua'r gogledd i'r pier yn 1856. Ond, pan adeiladwyd yr harbwr mewnol 20 mlynedd yn ddiweddarach, sefydlwyd gorsaf newydd ym mhen yr harbwr hwn mewn cyfadail a oedd wedi'i ehangu cryn dipyn ac a oedd yn cynnwys plattformau gwydrog hir wedi'u cysylltu gan westy mawr, a agorodd yn 1880. Erbyn yr adeg hon, roedd Caergybi wedi hen ymsefydlu fel porthladd teithwyr pwysig yn ogystal â'r porthladd swyddogol ar gyfer y post.



*Uchod: Yr adeiladau brics coch sy'n weddill o adeilad yr orsaf a adeiladwyd yn y 1880au (© Hawfrait y Goron: CBHC).*

*Cysylltai adeilad mawreddog Gwesty'r Station, a adeiladwyd yn 1880 gan Reilffordd Llundain a'r Gogledd-orllewin (LNWR), ddau blatfform gwydrog hir ym mhen yr harbwr mewnol (Darparwyd gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*





*Uchod: Y morglawdd mawr a'r harbwr noddfa a ddangosir mewn paentiad gan George Henry Andrews tua 1874 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*

## Y Morglawdd a'r 'Harbwr Noddfa Mawr'

*'One of the most splendid refuge harbours and packet stations in the universe.'*

E. Parry, 1848<sup>20</sup>

Yn gysylltiedig â'r buddsoddiad mawr hwn roedd un arall a oedd o leiaf yr un mor nodedig. Roedd y morglawdd mawr yn rhan o gynllun i greu harbwr noddfa a gorsaf llong bost ar gyfer llongau mwy o faint. Roedd y cynnig yn rhyfeddol o ran maint ei uchelgais a chymerodd 28 mlynedd i'w gwblhau, gan gyflogi mwy na 1,000 o ddyonion yn symud llawer o gerrig o Fynydd Tŵr ar dramffyrdd ac, yn ddiweddarach, ar reilffyrdd. Dechreuodd y gwaith ar yr harbwr a'r morglawdd newydd yn 1847 drwy osod cledrau o'r chwareli ar Fynydd

Tŵr a gwneud paratodau eraill. 'The scene at the quarries exhibits one of the most active pictures of industry, from the width of the workings and the number of labourers employed. Tramways laid in every direction, locomotive engines, blacksmiths, grinding mill, cranes with pullies and hooks ... blasting upon a magnitude which has never been equalled'.<sup>21</sup> Cynlluniwyd y morglawdd mawr gan y peiriannydd J. M. Rendel a olynwyd, pan fu farw yn 1856, gan John Hawkshaw gyda G. F. Lyster. Fe'i hymestynnwyd ddwywaith tra roedd yn cael ei adeiladu, gan ymestyn 2,418 metr (7,860 troedfedd) o hyd yn y pen draw.

Yn ogystal â'r morglawdd mawr, roedd y cynllun gwreiddiol yn darparu ar gyfer morglawdd dwyreiniol a fyddai'n ymestyn o ben gogleddol Ynys yr Halen. Er mwyn gwasanaethu'r prosiect adeiladu, adeiladwyd tramffordd i redeg o'r chwareli y tu hwnt i Soldier's Point ac ar hyd y lan i Ynys yr Halen. Er na chafodd y morglawdd dwyreiniol ei adeiladu erioed, gosodwyd y dramffordd ac adeiladwyd llinellau lleol bach er mwyn cysylltu'r cynlluniau arfaethedig eraill, gan gynnwys pier newydd ar gyfer rheilffordd ac agerlongau post i'r gogledd, a fyddai wedi mynd â'r rheilffordd o dan y dref drwy dwannel. Rhoddwyd y gorau i bier a thwnnel y rheilffordd, yn ogystal â'r pier dwyreiniol, ond adeiladwyd y dramffordd ac mae ei llwybr yn cael ei nodi o hyd gan linell Beach Road. Yn gysylltiedig â'r harbwr noddfa mawr roedd amrywiol

*Isod: Adeilad nodedig tŷ'r bad achub, yn yr arddull Jacobeaidd, a adeiladwyd yn 1857 ar Draeth Newry. Mae bellach yn gartref i Amgueddfa Arforol Caergybi (© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru).*





amwynderau eraill ar Draeth Newry, a ffurfiai wyneb yr harbwr newydd tua'r tir. Yma, adeiladwyd tŷ bad achub yn 1857 (Amgueddfa Arforol Caergybi bellach) ac un o ddepos Trinity House yn 1870. Ychwanegwyd iard gychod amgaeedig yn 1890 a phont lanio wrth ei hochr yn 1892 (pont lanio Mackenzie).

Er i'r buddsoddiad hwn atgyfnerthu safle Caergybi, roedd digon o gyfle i eraill gystadlu am yr hawl i gyflawni ei rôl fel porthladd swyddogol, ar ôl i'r llywodraeth benderfynu gosod y gwasanaeth post ar contract allanol o 1850 ymlaen. Enillwyd y contract cyntaf gan Gwmni Agerlongau Post Dinas Dulyn a oedd yn gweithredu o Bier y Morlys. O ganlyniad i ddyfodiad y rheilffordd, cafodd y pier hwn ei ymestyn a'i gysylltu â'r rheilffordd newydd gan dramffordd. Buan y penderfynodd Rheilffordd Caer a Chaergybi (LNWR yn ddiweddarach), a oedd yn cystadlu â'r cwmni Gwyddelig, wneud buddsoddiad newydd yn y rheilffordd a allai ei rhoi mewn gwell sefyllfa i gael y contract ar gyfer y gwasanaeth post yn y dyfodol wrth roi mantais iddi hefyd o ran nwyddau cyffredinol a theithwyr. Tra bod trenau wedi gorffen eu taith yn wreiddiol yn yr orsaf, a oedd gyferbyn â mynedfa bresennol Holborn Road, yn 1856 ymestynnwyd y llinell

tua'r gogledd i'r pentir lle roedd y fomant lanw yn cyfarfod â'r harbwr (gyferbyn â gwaelod Boston Street). Yma, sefydlodd y cwmni rheilffordd ei iard forol fach ei hun ar safle lle y safai tollty gynt (a nodir fel hen dollty ar fap y degwm). Dilynwyd hyn gan ragor o waith peirianyddol i greu cei newydd ar ochr orllewinol yr harbwr, ynghyd â siediau nwyddau ac ati.

Wedyn, pan fethodd y cwmni rheilffordd ag ennill y contract ar gyfer y gwasanaeth post unwaith eto yn 1870, cynigiwyd cynllun llawer mwy uchelgeisiol. Roedd hyn yn cynnwys creu harbwr newydd arall (yr harbwr mewnol) drwy gloddio'r fomant lanw i'r de, ac adfer ei hymylon ar gyfer glanfeydd ac angorfeydd, llinellau rheilffordd a siediau nwyddau. Ar yr un pryd, ymestynnwyd yr iard forol drwy godi sawl adeilad newydd, ac adeiladwyd doc sych a thŷ injan bwmpio newydd ar ochr ddwyreiniol yr harbwr estynedig ar Gei Turkey Shore. Fel cam olaf y cynllun hwn, adeiladwyd gorsaf a gwesty newydd mawreddog ym mhen yr harbwr, a agorodd yn 1880. Helpodd yr holl fuddsoddiad hwn i gynyddu masnach yn sylweddol, gan gynnwys da byw. O ganlyniad, neilltuwyd ardaloedd helaeth ger y rheilffordd ar gyfer siediau gwartheg a llociau tua'r o'r harbwr.



*Adeiladwyd yr iard forol mewn dau gam tua 1852 a 1880 er mwyn cefnogi gweithgareddau morurol Rheilffordd Caer a Chaergybi ac wedyn LNWR (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## 'The Rise and Progress of Holyhead': Mae'r Dref yn Ymffurfio

*The rise and progress of Holyhead from an obscure and mean condition to one of incredible prosperity is full of interest ... Within the last four years in particular it has rapidly increased in extent and improved in appearance ... Almost everything is new and wonderfully improved.*

Thomas Jackson, 1853<sup>22</sup>

Denodd yr holl brosiectau sifil hyn adnoddau i Gaergybi a meithrin ei thwf, ond mae'n debyg mai adeiladu'r morglawdd oedd yr ysgogiad mwyaf i ddatblygu'r dref. Yn ôl awdur *National Gazetteer of Great Britain and Ireland* yn 1868, 'the population has of late years rapidly increased, chiefly owing to the influx of engineers, mechanics,

labourers, and others employed upon the harbour works, so that it has nearly quadrupled since the beginning of the century'.<sup>23</sup> Y boblogaeth yn 1801 oedd 2,132 ac nid oedd ond wedi cynyddu i 3,869 yn 1841. Wedyn dyblodd mewn 10 mlynedd i gyrraedd 8,863 yn 1851.

Arweiniodd y cynnydd yn y boblogaeth at dwf trefol cyflym a chofnodir camau cyntaf y broses ehangu ar y map degwm dyddiedig tua 1840. Dengys gwaith adeiladu ar hyd Thomas Street a Newry Street ac mewn strydoedd newydd o amgylch yr ardal lle yr adeiladwyd Ucheldre Avenue i'r de a Well Street i'r gogledd yn ddiweddarach. Erbyn 1852, roedd rhagor o waith datblygu i'r gogledd hefyd yn mynd rhagddo yn Cybi Place a Cross Street, a greodd gymdogaeth glòs iawn yn y pen draw i'r gogledd-ddwyrain o Newry Street. Nid oedd y gwaith datblygu hwn bob amser yn cael ei groesawu: 'The long rows of new built houses between the town and harbour of refuge are extremely ugly'.<sup>24</sup>

*Golygfa o Gaergybi o gofeb Skinner ar draws yr harbwr tua 1850. Mae dwysedd cynyddol gwaith datblygu yn y dref yn adlewyrchu'r cynnydd cyflym diweddar yn y boblogaeth (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*







Dengys y manylion o fap y degum dyddiedig tua 1840 yr ardal o amgylch Newry Street a Thomas Street yn dechrau cael ei datblygu (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).



Tai teras cynnar ar Newry Street (chwith) a Thomas Street (dde) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Roedd tai bob amser yn cael eu hadeiladu mewn pentrefannau i ffwrdd oddi wrth y dref: Yn 1848 adeiladodd yr Arglwydd Stanley Lower Mountain Row ac Upper Mountain Row ar lethrau Mynydd Tŵr. Ar yr un pryd, parhau i ehangu a wnaeth canol y dref a oedd wedi sefydlu rôl fasnachol wedi'i chanoli: erbyn 1853,

roedd gweithgarwch masnachu yn ymestyn o Market Street i Stanley Street a Boston Street.<sup>25</sup> Erbyn 1870–72, roedd y dref yn cynnwys 'two good principal streets, a number of subordinate streets and considerable outskirts ... houses in the outskirts, generally, are much scattered'.<sup>26</sup>

*Roedd tai trillawr ar Market Street (brig), Stanley Street (isod) a Boston Street (gyferbyn), a adeiladwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn rhan bwysig o adfywiad y dref ac maent yn elfen nodedig o'i chymeriad heddiw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Dengys yr olygfa hon o'r awyr o Leiandy Bon Saveur sut roedd gwaith datblygu wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd y tu hwnt i glostir y lleiandy, yr oedd wal o'i amgylch (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms).*

Mae'n rhaid i ni dybio, ar sail ffurf wasgaredig a damweiniol y dref wrth iddi ehangu, fod y gwaith datblygu wedi'i gyflawni gan lawer o bobl wahanol, ond mae dwy ystad yn benodol yn sefyll allan. Un ohonynt oedd ystad Ucheldre, a oedd yn eiddo i'r teulu Thomas (a anfarwolir yn Thomas Street). Caniatawyd gwaith datblygu ar y caeau pellaf, ond nid adeiladwyd ar y craidd o dir o amgylch y tŷ erioed. Pan gaffaelwyd y tŷ gan Leiandy Bon Saveur yn 1907, sicrhawyd y tir hwn fel clofan preifat o amgylch adeiladau'r lleiandy newydd, wedi'i amgáu gan waliau uchel.

Roedd ystad Penrhos, a oedd yn eiddo i'r teulu Stanley, wedi caffael tir ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a chyfrannodd yn sylweddol i dwf y dref.

Buddsoddodd yn y gwaith o adfywio'r dref, er enghraifft, drwy adeiladu Gwesty'r Eagle and Child ar safle adeilad hŷn a elwid yn Blas Newydd a gaffaelwyd yn 1770. Roedd ystad Penrhos hefyd yn gyfrifol am ddatblygiadau eraill yng nghanol y dref drwy brydlesau adeiladu ar y brif stryd, lle roedd tai deulawr a thai atig wedi'u cofnodi erbyn 1769 a thai trillawr ar ochr y môr i Market Street yn 1774. Coffeir goruchafiaeth yr ystad hon yn enw Stanley Street. Rhoddodd William Owen Stanley neuadd farchnad i'r dref yn 1855. Roedd y teulu Stanley hefyd yn gyfrifol am elusendai Penrhos yn Kingsland (1866), cartref ac ystafell ddarllen morwyr ar Draeth Newry (1871), ac ysbyty'r morwyr ar Ynys yr Halen (1872).







*Rhoddyd neuadd y farchnad i'r dref gan y teulu Stanley yn 1855. Ar adeg ysgrifennu'r astudiaeth hon, mae neuadd y farchnad wrthi'n cael ei hadfer. Nodwch y tebygrwydd rhwng y talcenni a rhai tŷ'r bad achub a adeiladwyd yn 1857 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Isod: Adeiladwyd elusendai Penrhos — a elwid weithiau yn Stanley Cottages — ar gornel Tyn Pull Road a Cyttir Road yn Kingsland gan y teulu Stanley hefyd, yn 1866 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





Roedd tirfeddianwyr llai eraill hefyd yn gosod tir ar brydlesau adeiladu gan gynnwys, er enghraifft, ystadau Lligwy a Swift (coffeir yr olaf yn Swift Square), a oedd yn berchen ar barseli o dir ger yr eglwys, ac ystadau Trearddur a Llanfair ar ochr orllewinol Market Street. Ac adeiladodd y teulu Vickers o ystad Llanfawr dafam yr Hibernia yn Marine Square i gystadlu â gwesty'r Eagle and Child.

Erbyn 1890, roedd y dref wedi hen ymsefydlu i'r gogledd, ac roedd bron y cyfan o'r ardal rhwng Newry Street, Waterside a Wal y Bwrdd Masnach (1849–50) wedi'i ddatblygu.

Hefyd, roedd pocedi ar wahân o waith datblygu ar hen gaeau llain-gaeau ymhellach i'r gorllewin, gan gynnwys yr hyn y dywedir mai ef yw'r teras hiraf yng Nghaergybi (Wynne Street, lle roedd 48 o dai mewn un rhes, sydd wedi'u dymchwel bellach), a dechrau clofan nodedig o filâu sylweddol ar gyfres o gaeau bach yn Gors Avenue. Roedd y strydoedd o amgylch Ucheldre hefyd wedi'u cwblhau. Ymhellach i'r de, roedd y gwaith datblygu yn fwy tameidiog, gyda'r terasau cyntaf ar Station Street a Steam Mill Road (King's Road yn ddiweddarach). Ar yr ochr arall i'r llinell reilffordd, roedd maestref fach ym mhen London Road hefyd wedi'i datblygu.

*Safai tafarn yr Hibernia ar safle presennol Hibernia Terrace yn Marine Square. Fe'i badeiladwyd i gystadlu â Gwesty'r Eagle and Child ym mhen arall y dref (© Hawlfraint y Goront (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*



*Manyl yn argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans dyddiedig 1899 sy'n dangos tai teras ar Station Street (© a hawl cronfa ddata 'Crown Copyright and Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2019)).*



*Golygfa o'r awyr o Gaerdydd yn y 1920au (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms).*



*Y bwrlwm yng ngorsaf Caerdydd (chwith, 381816) a'r harbwr (isod, 381803) ar ddechrau'r ugeinfed ganrif (Drwy garedigrwydd Archifau Ynys Môn).*

## Yr Ugeinfed Ganrif

Roedd pob argoel y byddai Caerdydd yn parhau i ffynnu ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ond rhoddodd rhyfel ac annibyniaeth Iwerddon ergyd ddifrifol i'r dref ac roedd lefel uchel iawn o ddiweithdra erbyn y 1930au. Collodd Cwmni Agerlongau Post Dinas Dulyn y contract ar gyfer y post i'r cwmni rheilffordd yn 1920 a gadawodd Caerdydd: rhoddwyd y gorau i ddefnyddio ei weithdai ar Ynys yr Halen a chafodd llawer ohonynt eu dymchwel yn 1935.





*Cyfleusterau fferi modern yn yr harbwr mewnlol yng Nghaergybi (© Haulfrait y Goron (2019) Croeso Cymru).*



I ryw raddau, llenwodd mentrau newydd y bwlch, yn enwedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd pan anogwyd economi leol fwy amrywiol drwy sefydlu ffatrioedd newydd yn Kingsland a Turkey Shore, a gan fentrau mawr Anglesey Aluminium (1969) a Gorsaf Bŵer Wylfa (1963–71). Roedd y rhain i'w priodoli i raddau helaeth i bolisi ac ymyrraeth y llywodraeth ac, yn sgil gwladoli'r rheilffyrdd yn 1948, roedd y wladwriaeth hefyd yn ymwneud â gweithredu'r porthladd. Rhoddwyd hwb i ffyniant y porthladd drwy gyflwyno gwasanaeth fferi geir yn 1965, a oedd yn gweithredu o Ynys yr Halen, a sefydlu terfynfa gynwysyddion yn 1970, wedi'i chanoli ar ochr ddeheuol yr harbwr. Cafodd y gwasanaethau

hyn, a oedd yn eiddo cyhoeddus i ddechrau, eu preifateiddio yn y 1980au.

Adlewyrchir y cynnydd a'r lleihad mewn gweithgarwch economi yn hanes adeiladu'r dref. Erbyn 1924, roedd y dref wedi parhau i ehangu i'r de a'r gorllewin, ond mae'r patrwm datblygu tameidiog yn awgrymu proses hapfasnachol ysbeidiol ar raddfa fach. Adeiladwyd ar rai caeau unigol ar wahân fel ar Wynne Street (sydd bellach wedi'i dymchwel), Tara Street a Gors Avenue, ac roedd rhai strydoedd yn dal i fod heb eu gorffen, er enghraifft, King's Road a Cleveland Avenue.



*Manyl yn argraffiad cyntaf y map Arolwg Ordnans dyddiedig 1899 sy'n dangos tai teras ar Wynne Street, a adeiladwyd ar gae ar wahân (© a hawl cronfa ddata 'Crown Copyright and Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2019)).*





*Roedd gwaith datblygu hapfasnachol i'r de o Gaergybi ar gaeau unigol yn cynnwys Gors Avenue. Yma, adeiladwyd teras sylweddol ochr yn ochr â thai mawr ar wabân a gynlluniwyd yn unigol: Sunrise Terrace (brig), Mount Norris (yn y canol) ac Akaroa (gwaelod) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Roedd Walthew Avenue, a adeiladwyd ar gaeau agored hefyd, i'r gorllewin o'r dref, yn ardal adeiledig i raddau helaeth erbyn 1924 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Adeiladwyd ystad Treseifion (isod) a Than-yr-Efail (gwaelod) yn y 1950au gan yr awdurdod lleol er mwyn helpu i ddarparu tai newydd yn lle rhai o'r 1,200 o dai is-safonol a oedd wedi cael eu dymchwel (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Yn y cyfamser, roedd y caeau i'r gorllewin o'r dref yn dechrau cael eu ffafrio gan hapfasnachwyr a oedd yn awyddus i adeiladu tai mwy o faint. Erbyn 1924, roedd Walthew Avenue ('Wealthy Avenue') yn rhannol adeiledig ac roedd New Park Road wedi'i chynllunio. Yn yr ardal hon, parhaodd

gwaith adeiladu hapfasnachol i'r 1930au, pan sefydlwyd maestref nodedig, gan gysylltu'r dref â Phorth-y-Felin am y tro cyntaf. Mae'n debyg i'r broses hon gael ei hannog gan y gwaith a wnaed i drawsnewid y lan ogleddol, lle yr adeiladodd cyngor y dref bromenâd dwy haen ar hyd Traeth Newry yn 1927.



Ochr yn ochr â'r ffaith bod y wladwriaeth yn chwarae rhan amlycach yn economi'r dref, yr awdurdodau cyhoeddus a gyfrannodd fwyaf at ffurf y dref yn y cyfnod ar ôl y rhyfel wrth i'r awdurdod lleol ymgymryd â chyfres o raglenni adeiladu newydd mawr. Er bod mentrau newydd pwysig megis Anglesey Aluminium ac Wylfa yn golygu bod angen ehangu'r dref, roedd y gofyniad yn Neddf Atgyweirio Tai a Rhenti 1954 i nodi a dymchwel tai is-safonol a chodi rhai newydd yn eu lle hefyd yn sbardun i ddarparu tai newydd. Allan o stoc dai gyfan o ychydig dros 3,000, clustnodwyd 720 o dai ar unwaith i'w dymchwel. Rhwng 1964 a 1974, dymchwelwyd 1,200 o dai gan Gyngor Dosbarth Trefol Caerdybi ac adeiladwyd 1,000 o dai newydd. Yn y cyfamser, erbyn 1969, arweiniodd hinsawdd economaidd a oedd yn gwaethygu at ostyngiadau yn y cymhorthdal ar gyfer tai newydd a rhoddwyd pwyslais newydd ar waith adnewyddu. Yn y 1970au, cafodd y newid hwn yn y polisi ei adlewyrchu'n lleol drwy newid o chwalo slymiau i waith grant ar gyfer atgyweirio ac adnewyddu. Arbedodd hyn rai strydoedd a oedd wedi cael eu clustnodi i'w dymchwel, ond arweiniodd at newid sylweddol yng nghymeriad y stoc dai draddodiadol.





Sefydlwyd ystadau tai mawr ym Morawelon (a ddechreuwyd yn 1956) a Threseifion, ond erbyn y 1970au, roedd cynlluniau ailddatblygu yn llai o faint fel arfer wrth i'r flaenoriaeth gael ei rhoi i adnewyddu tai yn hytrach nag adeiladau rhai newydd. Ceir enghreifftiau o'r datblygiadau llai o faint hyn o amgylch Mill Bank, Waterside a St Seiriol's Close. Fel arfer, roedd yr ystadau newydd yn cynrychioli gwaith datblygu ar raddfa fwy nag a welwyd erioed o'r blaen a chollwyd y patrwm sylfaenol o gaeau a ffiniau.



Hyd yn oed lle y cafodd ardaloedd adeiledig eu hailddatblygu, ni ddilynwyd patrymau strydoedd a etifeddwyd, er enghraifft, o amgylch Water Street a Wynne Street (nad yw'n bodoli mwyach). Mae'r rhan fwyaf o'r stoc dai sydd wedi goroesi yn darparu tystiolaeth o wahanol gyfundrefnau gwella, gan gynnwys enghraifft gynnar ar Tyn Pwll Road, lle roedd lefel y newid yn anarferol o uchel.



Ar ôl y 1970au, unwaith eto gwaith datblygu preifat a ddaeth i'r blaen mewn prosiectau adeiladu ar raddfa fawr. Mae twf Caergybi i'r gorllewin mewn maestrefi preswyl ac i'r de ar ffurf datblygiadau masnachol ar hyd y prif goridor trafndiaeth wedi bygwth llyncu cymeriad unigryw'r dref hanesyddol.



*Brig: Disodlodd datblygiad llai o faint ar Rock Street dai teras cynharach (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Uchod: Cynllun adfywio cynnar yn Tyn Pwll Road, a oedd yn cynnwys rendr gro chwipio, cladin pren a ffenestri mwy o faint. Noder bod y wal derfyn wreiddiol wedi goroesi'n gyflawn (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*

*Chwith: Dengys yr olygfa fodern hon o'r awyr y ffordd y mae datblygiadau masnachol wedi ehangu i'r de o'r dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



# Tirwedd Hanesyddol

*Engraffiad o dŷ'r Capten Skinner' a wnaed o lun a baentiwyd gan ei gyfaill, y swyddog tollau, James Sparrow, yn 1828. Roedd y tŷ mawr trawiadol yn edrych dros flaen y traeth cyn i Victoria Road cyn i datblygu'n iawn (Darparwyd gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*



## Diwedd y Ffordd, Ymyl y Tir

*Dengys braslun Lewis Morris o Gaerdybi, dyddiedig 1737, sut mae'r dref wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd uwch ar yr adeg hon (Drwy garedigrwydd Swyddfa Hydrograffig y DU).*

*'The greater part of the town is built immediately adjoining the harbour, and presents a peculiar appearance from the steepness of the streets, which run somewhat abruptly up from the water's edge.'*

*The National Gazetteer of Great Britain and Ireland, 1868<sup>27</sup>*

Nes i'r gwaith adfer tir a oedd yn gysylltiedig â chreu a gwella'r harbawr gael ei wneud, roedd y dref wedi'i chyfyngu i'r tir uwch i'r gorllewin o'r fomant lanw. Mae'r topograffi serth iawn yn elfen bwysig o gymeriad y dref, ac mae'n rhoi golygfeydd a fistâu ac yn creu effeithiau pictiwrésg trawiadol.

Yn ystod y cyfnod Rhufeinig, roedd y môr yn union o dan y clogwyni isel sy'n nodi ymyl y tir uwch. Mae'n debygol bod y gaer yn agored i'r môr ar ei hochr ddwyreiniol; mae'r wal



ddwyreiniol bresennol yn un fodern. Mae'r trefniant a ddangosir ym mraslun Lewis Morris dyddiedig 1737 yn nodi'n glir draethlin yn union o dan y fynwent ac ochr ddeheuol Market Street, sy'n cyfyngu ardal adeiledig y dref i'r lefel uwch. Y ddau eithriad i hyn oedd yr ardal ar waelod Boston Street, lle roedd pentir creigiog yn y fornant yn creu ardal o dir solet, a Marine Square. Yn y ddwy ardal, mae tystiolaeth o waith datblygu sy'n rhagflaenu'r harbwr a grëwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ffordd fynediad uniongyrchol iddo.

Mae traddodiad bod yr ardal y tu hwnt i Water Street (Pwll Cam) hefyd wedi'i hadfer ac mae Lewis Morris yn dangos bwllch sylweddol

yn yr anheddiad yn y man hwn. Mae'n bosibl bod y gwaith a oedd yn gysylltiedig â'r harbwr a'r ffordd newydd hefyd wedi effeithio ar y tir yn yr ardal hon, yr oedd gwaith adeiladu yn mynd rhagddo arno, yn ogystal â'r draethlin orllewinol (Victoria Road yn ddiweddarach) erbyn yr arolwg degwm tua 1840. Cafodd ochr ddwyreiniol yr harbwr ei gwella hefyd a'i hadfer yn rhannol fel rhan o'r gwaith ar yr harbwr yn y 1820au, a atgyfnerthodd y draethlin yn Turkey Shore Road. Ymestynnodd ail gam rhaglen gwella'r harbwr yn y 1870au yr ardal a adferwydd unwaith eto, y tro hwn ar gyfer llinellau rheilffordd a siediau nwyddau ar y ddwy ochr i'r harbwr, ynghyd ag ail ddoc sych ar gei newydd Turkey Shore.



*Dengys y manylyn hwn o fap y degwm dyddiedig tua 1840 yr ardal o amgylch Market Street (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*



*Dde: Manyl yn o argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans dyddiedig 1899 sy'n dangos eiddo sy'n wynebu Market Street (© a hawl cronfa ddata Crown Copyright and Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2019).*

*Dde isod: Yn wreiddiol roedd Stanley Street ar y prif lwybr drwy'r dref cyn i Victoria Road gael ei chreu. Mae eiddo trillawr nodedig fel y rhain yn helpu i gadw cymeriad gwreiddiol canol y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith isod: Roedd Victoria Road rhwng Market Street a'r llinell reilffordd bellach yn brif dramwyfa. O ganlyniad, mae cefnau'r eiddo ar Market Street yn amlwg mewn ffordd nas bwriadwyd erioed (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*

Mae'n amlwg bod y gwaith hwn ar y draethlin yn bwysig iawn i economi'r dref a'i fod yn cyfrannu'n gryf at ei chymeriad, ond mewn gwirionedd ni lwyddodd erioed i fanteisio ar y ffyniant economaidd a gafwyd ar hyd y llwybr gwreiddiol drwy ganol y dref erioed. Â'i'r hen ffordd ar hyd Market Street a Stanley Street cyn disgyn ar hyd llinell Boston Street i'r lan a Marine Square. Nid oedd unrhyw fynediad uniongyrchol arall i'r lan nes i Victoria Road gael ei chreu yn y 1820au ac nid oedd unrhyw lwybr drwodd i'r lan ogleddol tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ymestynnwyd Newry Street i ymuno â'r ffordd newydd ar hyd y lan ogleddol. Dilynai'r ffordd hon linell y rheilffordd a oedd wedi'i hadeiladu

i wasanaethu'r morglawdd dwyreiniol arfaethedig ar ddiwedd y 1840au ac, felly, gorffennodd ymhell cyn Marine Square. Ni chrëwyd llwybr drwy'r sgwâr tan ganol yr ugeinfed ganrif, a oedd yn ei gwneud yn haws cyrraedd y lan ogleddol ond a amharodd ar gyfanrwydd y sgwâr ar yr un pryd. Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith mai'r unig ffordd o gyrraedd lefel y lan o'r brif stryd yw drwy'r fynwent. A, heblaw am yr eglwys a Stanley House, mae'r dref yn bendant yn wynebu'r brif stryd yn hytrach na'r harbwr. Yn fwy diweddar, mae'r defnydd cynyddol o'r ffordd isaf wedi creu cyfeiriadedd eilaidd cryf i'r dref, gan roi pwysigrwydd newydd i gefnau eiddo ar ochr ddwyreiniol Market Street.





## Defnydd Tir a Pherchenogaeth

Y llwybr ar hyd Market Street a Stanley Street oedd prif echel y dref o hyd ac mae'n parhau felly. Tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gwaith datblygu wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i'r echel hon gyda dim ond

datblygiadau damweiniol y tu hwnt iddi. Roedd y fynwent amgaaedig, a oedd wedi'i chuddio o'r strydoedd, ond a gafodd ddylanwad mawr ar eu cyfeiriadedd, yn allweddol i'r cynllun hwn. Yn agos at ei mynedfa ffurfiai cyffordd y ddwy brif stryd sgwâr farchnad fach. Roedd hyn yn diwallu anghenion y dref, nad oedd yn ganolfan fasnachu nodedig, tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddarparwyd marchnad dan do fwy o faint.



*Mae'r patrwm strydoedd sydd wedi goroesi'n dda o amgylch y gaer Rufeinig yn amlwg yn y llun hon o'r awyr. Mae sgwâr y farchnad, lle mae Market Street a Stanley Street yn cydgyfarfod, i'r chwith o'r gaer (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Sgwâr y farchnad, a weithredai fel y brif ganolfan fasnachu nes i neuadd y farchnad gael ei hadeiladu yn 1855 (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





*Dengys y map modern hwn y ffordd y mae'r patrwm strydoedd afreolaidd rhwng Holborn Road a King's Road yn cadw'r ffiniau caeau cynharach (Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrbydi, © Hawlfraint y Goron 2016. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri Hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Llywodraeth Cymru. Rhif Trwydded: 100021874).*



*Mae ffiniau cryf, megis y waliau stryd cefn hyn, yn elfen bwysig o gymeriad hanesyddol Caerdybi (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Y tu hwnt i'r llinell hon, mae'r patrwm strydoedd yn nodweddiadol afreolaidd, er gwaethaf datblygiad dwys y dref dros gyfnod byr (rhwng tua 1850 a 1880). Mae hyn yn adlewyrchu patrwm llawer cynharach o ddefnydd tir – rhwydwaith afreolaidd o gaeau a chlostiroedd

bach iawn, gan gynnwys, yn fwyaf nodedig, gyfres o lain-gaeau. Mae'n rhaid bod y lleiniau afreolaidd hyn o dir yn eiddo i lawer o bobl wahanol am mai anaml y cawsant eu cyfuno pan gynlluniwyd strydoedd newydd. Yn lle hynny, cafodd strydoedd newydd eu cynnwys o fewn y patrwm hwn a etifeddwyd. Mae gwaith aildatblygu i'r gogledd-orllewin o ganol y dref wedi amharu ar y patrwm hwn bellach, ond mae i'w weld o hyd i'r de, lle y cafodd y strydoedd rhwng Holborn Road a King's Road eu ffitio i mewn i gaeau bach iawn. Y newidiadau sydyn mewn cyfeiriad a'r strydoedd pengaead byr yw gwaddol yr hanes hwn.

Mae ffiniau perchenogaeth a defnydd tir a awgrymir gan y patrwm strydoedd afreolaidd hwn, a'r lleiniau o dir hunangynhwysol bron a'r ffiniau cryf sy'n gysylltiedig ag ef weithiau, yn elfennau pwysig o gymeriad hanesyddol Caerdybi. Ymddengys fod y dref wedi'i strwythuro bron fel cyfres o gloffannau. Mae rhai o'r rhain ond yn cael eu nodi gan aliniad strydoedd, llwybrau a lleiniau tra bod ffiniau cloffannau eraill (megis y fynwent ac Ucheldre) yn cael eu nodi gan waliau sylweddol.





Ond efallai mai'r enghreifftiau mwyaf nodedig o blith y clofannau hyn yw'r rhai sy'n gysylltiedig â'r amrywiol brosiectau a noddwyd gan y llywodraeth a lywiodd ddatblygiad y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd prosiectau'r harbwr, y rheilffordd a'r morglawdd yn rhaglenni adeiladu mawr a gyflawnwyd gyda buddsoddiad cyhoeddus sylweddol. Roedd eu dylanwad ar siâp a strwythur y dref yn sylweddol ac ymestynnodd ymhell y tu hwnt i'r gosodiadau eu hunain i drefnu a chynnwys ardaloedd cyfan o'r topograffi. Er enghraifft, roedd Wal y Bwrdd Masnachol sy'n rhedeg tua'r tir o Draeth Newry yn cynnwys y dref i'r gogledd, gan wahaniaethu rhwng tir a oedd yn eiddo i'r Goron a'r gweddill. Mae'r ffin hon yn dal i roi ymyl bendant i'r dref am fod yr unig waith adeiladu sylweddol a geir y tu allan iddi ar Beach Road yn gysylltiedig â'r harbwr. Mae'r waliau sy'n gwahanu'r porthladd oddi wrth y dref ar hyd Victoria Road a Turkey Shore Road, neu sy'n cynnwys y rheilffordd (sy'n gyfochrog â London Road), y mae pob un ohonynt yn dynodi gwahanol fathau o ddefnydd tir a oedd yn rhai preifat i bwrpas, yn nodweddion ffiniol cryf.

Un o nodweddion sefyllfa fel hon lle y ceir darnau o dir sy'n eiddo i sawl perchennog ac yn cael eu defnyddio at wahanol ddibenion yw bod ffiniau yn aml wedi'u nodi'n glir iawn, naill ai gan waliau neu gan newidiadau sydyn mewn cymeriad. Mae hon yn nodwedd bwysig ar y dref sy'n haeddu cael ei pharchu yn lleoliad, ffurf a therfynau datblygiadau newydd.



*Brig: Mae Wal y Bwrdd Masnachol ar hyd Beach Road yn dal i roi ymyl bendant i'r dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Mae'r wal sy'n gwahanu Turkey Shore Road oddi wrth y cei yn dal i fod yn nodwedd ffiniol gref (chwith) yn ogystal â wal yr harbwr ar hyd Victoria Road (uchod) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Arglawdd Stanley, rhwng y Fali ac Ynys Gybi, oedd rhan olaf ffordd Thomas Telford rhwng Llundain a Chaerdybi (A5). Mae'r A55, sef Gwibfordd Gogledd Cymru, yn rhedeg yn gyfochrog â hi a gyda'i gilydd mae'r ffyrdd hyn yn nodwedd drawiadol yn y dirwedd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Trafnidiaeth

Ymhlith y dylanwadau eraill ar siâp a ffurf y dref, mae trafndiaeth wedi bod yn hynod bwysig. Gosodwyd ffordd newydd Telford ar rwydwaith cynharach o ffyrdd yr oedd hierarchaeth bendant yn perthyn iddynt. Ar y llwybr gwreiddiol i mewn i'r dref o Four Mile Bridge y sefydlwyd y ffordd

dyrpeg gyntaf ond o fewn degawdau roedd wedi cael ei ddisodli gan London Road. Hefyd, roedd rhwydwaith o lonydd lleol eraill, yr oedd rhai ohonynt yn cysylltu aneddiadau (Porth y Felin Road, Llanfawr Road a Porthdafarch Road, er enghraifft), ac eraill nad oeddent yn ddim mwy na lonydd fferm a oedd yn diwallu anghenion lleol iawn. Nid oedd Newry Street na Tresefion Road, er enghraifft, yn ddim mwy na ffordd fferm leol tan ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Waeth beth fo eu tarddiad, roedd llawer o'r ffyrdd hyn yn sail ar gyfer gwaith datblygu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac maent wedi bod yn nodweddion gwydn yn y dirwedd.

Roedd adeiladu'r rheilffordd yn ymyriad enfawr yn nhrefniadaeth defnydd tir. Roedd wedi'i lleoli ar y tir isel rhwng hen ffordd y post (Kingsland Road) a London Road, a adeiladwyd gan Telford ac a arferai gynnwys caeau, gan greu rhwystr caled a oedd, i bob pwrpas, yn gwahanu rhannau dwyreiniol a gorllewinol y dref a oedd yn tyfu wedi hynny. Gyda'r ffyrdd, roedd y rheilffordd yn ffurfio coridor trafndiaeth mwy sydd wedi'i ehangu'n sylweddol ers hynny gan linell yr A55.



*Mae effaith y rheilffordd ar ddefnydd a threfniadaeth tir i'w gweld yn glir yn y llun hwn o'r awyr o'r harbwr yn 1923 (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms).*



# Nodweddion Adeiladu

## Patrymau Datblygiadau

Cynrychiolir craidd hanesyddol yr anheddiad gan echel hir Market Street a Stanley Street i'r gogledd ac i'r de o'r eglwys. Ac eithrio'r waliau o amgylch y fynwent sy'n dyddio o'r cyfnod Rhufeinig, a'r ddwy eglwys, nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw adeiladau wedi goroesi o'r cyfnod cyn diwedd y ddeunawfed ganrif, er bod olion adeiladau canoloesol wedi'u cofnodi.<sup>28</sup> Er ei bod wedi'i chynnwys o fewn y patrwm dal tir a etifeddwyd, mae cymeriad y dref yn adlewyrchu i raddau helaeth y statws a enillodd fel porthladd pwysig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae ei hadeiladau, p'un a ydynt yn fasnachol neu'n ddomestig, yn bendant yn rhai trefol o ran eu ffurf; prin yw olion yr arddull gynhenid wledig a awgrymir mewn rhai lluniau o'r dref, os oes unrhyw olion o gwbl.

Mae'n debyg bod ffurf bresennol canol y dref a llawer o'i gymeriad yn dyddio o hanner cyntaf

y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd gwaith datblygu yng nghanol y dref ei gyfuno fel strydoedd wedi'u hadeiladu'n barhaus, a roddodd gymeriad trefol amlwg iddo. Er gwaethaf y nifer gymharol fawr o dirfeddianwyr, roedd gwaith datblygu yng nghanol y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn anarferol o gydlynol. Er i lawer o fanylion hanesyddol gael eu colli o'r llawr gwaelod, fe'i nodweddir gan derasau hir o adeiladau trillawr yn yr arddull Sioraidd gynhenid, sy'n unffurf iawn diolch i'r rhythm rheolaidd o ffenestri a simneiau. Mae bron pob un o'r adeiladau bellach yn cael eu defnyddio at ddibenion masnachol ac mae'n debyg bod y crynhoed hwn o swyddogaeth wedi'i sefydlu erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae adeiladau unigol nodedig naill ai'n brosiectau trefol, megis y farchnad (1855), neuadd y dref (1875) a'r llys ynadon (1894), neu'n adeiladau masnachol diweddarach megis y banciau, Tŷ Cyfle a datblygiadau mawr 1906 a 1912 ar Stanley Street, sy'n enghreifftiau trawiadol o bensaerniaeth fasnachol fwriadol.

*Dengys y print hwn dyddiedig 1769 yr hen farchnad yng Nghaergybi wedi'i hamgylchynu gan adeiladau to gwellt syml yn yr arddull gynhenid. Croes y farchnad oedd y canolbwynt ar gyfer masnachu cyn i neuadd y farchnad gael ei hadeiladu yn 1855 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*



*Terasau o adeiladau trillawr ar Market Street (brig), Stanley Street (canol) a Boston Street (gwaelod). Noder rhythm rheolaidd y simneiau a'r ffenestri ar y lloriau uchaf (© Hawlfraint y Goron CBHC).*







*Mae neuadd y dref, a adeiladwyd yn 1875 (chwith), a'r llys ynadon, a adeiladwyd yn 1894 (chwith isaf) yn dirnodau amlwg yn strydlun canol y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Isod: Adeilad newydd neuadd y farchnad, a adeiladwyd yn yr arddull Jacobeaidd nodedig gan William Stanley yn 1855. Ar adeg ysgrifennu'r astudiaeth hon, mae'r adeilad wrthi'n cael ei adfer (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





Mae adeiladau nodedig eraill yng nghanol y dref yn cynnwys hen Fanc North and South Wales a adeiladwyd o frics coch yn 1899 (brig), Tŷ Cyfle, a adeiladwyd tua 1900 mewn arddull yr ymddengys ei bod yn perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg (canol), Churchill House a adeiladwyd yn 1906/1912 ar Stanley Street (chwith isaf) a hen Swyddfa'r Post ar Boston Street (dde isaf) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



I ffwrdd oddi wrth ganol y dref, mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau preswyl yn dyddio o tua 1850–80. Roedd y mewnlifiad mawr o weithwyr a oedd yn gysylltiedig â phrosiectau peirianeg sifil mawr canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn golygu bod angen nifer fawr o dai cymharol fach; darparwyd y rhain bron yn ddieithriad mewn rhesi hir o dai teras. Mae'n anodd nodi cronoleg glir, ond mae'n debyg bod y tai cynharaf yn anheddau unllawr syml a oedd yn cynnwys un neu ddwy uned. Fodd bynnag, buan iawn y mabwysiadwyd math mwy trefol o gynllun lle roedd y tai, yn amlach na pheidio, yn anheddau deulawr â chynllun dwfn yn hytrach nag un hir.

Roedd mathau cymharol syml o gynllun yn gallu amrywio'n fawr. Erbyn hyn mae'n anodd dehongli gwahaniaethau pensaernïol oherwydd

y defnydd o gro chwipio, ond roedd maint y llain a maint y tŷ ymhlith y prif wahaniaethau ac mae graddau'r amrywio yn awgrymu bod gan Gaergybi hierarchaeth gymdeithasol eithaf cymhleth. Adeiladwyd rhai rhesi yn uniongyrchol ar y palmant; roedd gan eraill erddi blaen bach, wedi'u hamgáu'n aml gan waliau isel y rhoddwyd triniaeth addurnol nodedig iddynt. Er bod cryn unffurfiaeth yn aml o fewn rhesi unigol, roedd amrywiadau rhwng rhesi yn cynnwys maint y tŷ (un ffrynt neu ffrynt dwbl, deulawr neu drillawr ag atig, un neu ddwy ffenestr ar y llawr gwaelod) a ph'un a oedd ffenestri bae neu bortshys ai peidio. Er bod nodweddion hanesyddol i'w gweld o hyd, mae'n amlwg bod manylion eithaf bywiog ac amrywiol wedi'u hymgorffori yn y gwaith rendro, ac mae'r amrywiaeth hon yn dal i fod yn bwysig.



*Mae rhesi hir o dai teras, megis Cecil Street, yn nodweddu'r tai a adeiladwyd yn bennaf rhwng 1850 a 1880 y tu allan i'r brif ganolfan fasnachol. Noder bod tai un ffrynt a ffrynt dwbl wedi cael eu hadeiladu ochr yn ochr â'i gilydd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae'r tai yn Gilbert Street yn dangos cymysgedd o ffryntiadau gwastad a ffenestri bae. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu ymgyrchoedd adeiladau gwahanol yn ogystal â statws (© Hawlfraint Goron: CBHC).*

*Mae pob un o waliau terfyn y gerddi blaen bach ar Holborn Road (brig), Station Street (canol) a Moreton Road (gwaelod) wedi cael eu trin yn wahanol. Noder hefyd yr amrywiadau pensaernïol rhwng y ffenestri (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Mae manylion anarferol ar ffurf mowldinau capan i'w gweld o hyd o amgylch ffenestri'r tai hyn ar Arthur Street; noder hefyd drefniant rheolaidd y simneiau (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Isod: Nodweddir Kingsland Road yn bennaf gan derasau hir o dai bach wedi'u gorffen yn syml (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd tai mwy o faint yn cael eu hadeiladu mewn terasau a pharau ac fel flâu ar wahân, megis y tai hyn yn Gors Avenue, (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd amrywiaeth ehangach o dai o wahanol fathau a meintiau i'w gweld yn y dref wrth i derasau o dai mwy o faint, parau a rhai flâu ar wahân gael eu hadeiladu, sy'n awgrymu strwythur cymdeithasol mwy cymhleth fyth wrth i'r dref gryfhau ei statws trefol. Roedd y tai mwy o faint hyn yn gwyro oddi wrth y confensiynau cynharach, yr oedd eu ffyrntiadau

gwastad ond yn cael eu torri gan bortshys a ffenestri bae, a chyflwynodd fwy o waith modelu ac amrywiaeth ehangach o ffurfiau a deunyddiau. Ceir rhai enghreifftiau o adfywiad cynhenid gan ddefnyddio arddull hen ffasiwn fwriadol. Mae'r estyniadau i Stanley House, yr adeiladau ym Mhlas Alltran a Thŷ Cyfle oll yn cyfeirio at arddulliau adeiladu sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg.







*Mae'r estyniad cefn i Stanley House (brig), Plas Alltran (chwith isaf) a Thŷ Cyfle (dde isaf) yn ben ffasiwn yn fwriadol ac maent oll yn cyfeirio at arddulliau adeiladau sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg (© Haulfrait y Goron: CBHC).*





Mewn datblygiadau hapfasnachol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yr oedd llawer ohonynt yn dai pâr a byngalos cymharol fach, ar un adeg roedd mwy o gydymffurfiaeth â chonfensiynau dylunio'r oes. Ailadroddir nodweddion megis talcenni amlwg yn bargodi dros ffenestri bae a thoeon clip cryf fel thema ac amrywiad. Honnir bod gan rai o'r rhain hunaniaeth a ysbrydolwyd gan y mudiad celf a chrefft, ond hyd yn oed lle mae'r tai yn llawer mwy confensiynol, yn aml mae eu walïau terfyn yn bendant yn yr arddull gynhenid, am eu bod yn defnyddio deunyddïau lleol tra bod yr adeiladau eu hunain yn dibynnu ar ddeunyddïau a fasgynhyrchwyd ac a fewnforiwyd.



*Tai sy'n dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif, y dylanwadodd y mudiad celf a chrefft arnynt, yn Seaborne Road (brig a chanol) a Walthew Avenue (gwaelod). Noder hefyd y walïau terfyn cynhenid cadarn (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae capeli, a leolir yn aml rhwng tai teras, yn rhan bwysig o gymeriad y dref: mae Hyfrydle (brig), Tabernacl (chwith canol) a Mount Pleasant (yn y canol ar y dde) ar Thomas Street; mae Hebron (chwith isaf) ac Ebenezer (dde isaf) ar Kingsland Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Er mai tai teras a geir yn bennaf yn y dref, mae adeiladau sefydliadol a chrefyddol hefyd yn elfennau pwysig o'i chymeriad, gan dorri ar unffurfiaeth y terasau. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig mae'r eglwys Gatholig sy'n dyddio o 1965 a ddisodlodd un gynharach a adeiladwyd yn 1855; Bethel, Edmund Street, 1895;

Ebenezer, Kingsland Road, y 1850au a 1890; Hebron, Kingsland Road, 1879 a 1902; Hyfrydle, Thomas Street, 1887–88; Mount Pleasant, Thomas Street, 1883 a'r Tabernacl, hefyd ar Thomas Street, lle yr ychwanegwyd ffasâd yn 1913 at adeilad a oedd yn dyddio o 1823–24.





## Deunyddiau a Manylion Adeiladu

Y prif ddeunydd adeiladu waliau oedd cerrig lleol, a oedd wedi'u hamlygu weithiau mewn drychiadau ochr neu gefn. Gwyddom o ddisgrifiad George Burrow o'r dref yn 1862 fod tai wedi'u gwyngalchu neu wedi'u rendro yn draddodiadol: 'The houses were tolerably large and all white. The town, with its white houses placed by the seaside, on the skirt of a mountain, beneath a blue sky and a broiling sun, put me in mind of a Moorish piratical town...'.<sup>29</sup> Yn hanesyddol, mae'n debyg bod rendr

yn llyfn ar y cyfan, er iddo gael ei orffen â gwaith sgrafellu a'i gyfuno â llawr isaf garw weithiau.

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd plastr garw yn cael ei ffafrio a gellir dadlau mai hwn yw deunydd traddodiadol y dref. Fel arfer, roedd yn cael ei gyfuno ag addurniadau wedi'u rendro, a oedd yn cynnwys, fel arfer, blinth ac architrafau ac a oedd weithiau yn cynnwys bandiau eraill hefyd er mwyn nodi congfeini a llin-gyrsiau. Yn y pen draw roedd cryn dipyn o greadigrwydd yn cael ei ddefnyddio i lunio manylion yr architrafau, sy'n darparu llawer o'r amrywiaeth o'r naill res o dai teras i'r llall.

*Rendr garw wedi'i gyfuno ag addurniadau wedi'u rendro ar Kingsland Road (chwith) a Newry Street (chwith isaf) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Isod: Mae rendr sgrafellosg i'w weld o hyd ar y tŷ hwn yn Cambria Street (© Hawlfraint y Goron: RCAHMW).*



*Er gwaethaf y defnydd helaeth o rendr gro chwipio, mae amrywiaeth o fanylion wedi'u mowldio i'w gweld o hyd o amgylch ffenestri a drysau. Mae'r enghreifftiau hyn ar Moreton Street (chwith uchaf a dde uchaf), Alderley Terrace (chwith isaf) a St Cybi Street (dde isaf) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





Yn anffodus, mae'r rhan fwyaf o'r gorffeniadau rendr traddodiadol bellach wedi'u disodli gan rendr gro chwipio sydd o liw llwydfrown gan amlaf ac nad oes ganddo ansawdd ysgafn ei ragflaenydd. Mae'r manylion wedi'u rendro wedi goroesi'n well, er bod mowldinau weithiau wedi cael eu disodli gan addumiadau gwastad. Yn hanesyddol, mae'n debyg bod y dewis o liwiau yn gyfyngedig iawn. Fodd bynnag, lle mae lliw wedi'i gyflwyno i'r plastr garw traddodiadol, mae'n gweithio'n dda.

O ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, roedd traddodiad o osod llythrennau yn ffryntiadau wedi'u rendro adeiladau masnachol wedi dod yn bwysig ac mae rhai enghreifftiau da sydd wedi goroesi o hyn ym mhob rhan o'r dref.



*Uchod: Plastr garw lliw yn Williams Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae llythrennau dyrchafedig yn elfen bwysig o gymeriad masnachol Caerdybi ac maent wedi goroesi'n dda ar nifer o adeiladau, gan gynnwys London House ar Boston Street (canol) a Cavendish House ar Market Street (gwaelod) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Mae toeon llechi â theils crib coch i'w gweld o hyd mewn rhai terasau ynghyd â'u simneiau. Gyda'i gilydd, maent yn gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad y dref. Mae Cambria Street (brig) a Kingsland Road (gwaelod) yn enghreifftiau da (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Llechi a geir ar y toeon yn bennaf, fel arfer mewn meintiau unffurf, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd teils crib coch yn cael eu defnyddio'n eang ac mae llawer wedi goroesi'r don

o weithgarwch adfywio a ymledodd drwy'r dref yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Ynghyd â simneiau sy'n aml wedi goroesi, mae'r rhain yn gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad y dref.



Cyflwynodd gweithgarwch adeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif rai deunyddiau newydd i'r cymysgedd, gan gynnwys brics, llechi toi wedi'u mewnforio a cherrig adeiladu. Defnyddiwyd y deunyddiau hyn a fewnforiwyd yn arbennig ar gyfer adeiladau masnachol — mae'n bosibl bod Gwesty'r Station yn un o'r rhai cynharaf a'r adeilad hwn oedd yr enghraifft fwyaf trawiadol o'r defnydd o frics yn bendant. Hefyd, defnyddiwyd y deunyddiau hyn yn arbennig o effeithiol mewn rhai o'r datblygiadau tai hapfasnachol o statws uwch, er enghraifft, ym mhen uchaf Newry Street, lle y ceir rhai terasau crand o dai brics, ac yn Walthew Avenue a Bryn Goleu, lle roedd amrywiaeth o arddulliau yn golygu ei bod yn addas iawn defnyddio amrywiaeth gyfatebol o ddeunyddiau. Erbyn y 1930au, roedd amrywiaeth unwaith eto wedi cael ei disodli gan fwy o unfurfiaeth ac mae'n debyg mai rendr gwyn oedd y prif ddeunydd a ddefnyddiwyd am gyfnod yn y datblygiadau hapfasnachol o amgylch Seabome Road a Min y Môr Road, er bod hwn hefyd wedi cael ei fwrw i'r cysgod gan liw mwy dwl gro chwipio.



*Gwaith brics crand ar dai ar Newry Street (uchod) a Bryn Goleu (chwith) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Rendr gwyn oedd y deunydd ffasiynol pan adeiladwyd y tai hyn yn Walthew Avenue yn y 1930au (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Ar wahân i addumiadau rendr a roddwyd o amgylch drysau a ffenestri, prin iawn yw'r manylion sydd wedi goroesi gwaith adnewyddu a moderneiddio. Mae hen ffotograffau yn awgrymu bod amrywiaeth o fathau o ffenestri yn y tai llai o faint ar un adeg er nad oes unrhyw wahaniaeth clir o ran oedran rhwng y defnydd o ffenestri codi â 4 cwrel neu 12 o gwarelau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r ffenestri gwreiddiol wedi'u disodli gan rai newydd, rhai UPVC yn aml, yn enwedig yn y tai teras bach. Mae mwy wedi goroesi yn y tai mwy o faint a'r adeiladau masnachol, sy'n dangos amrywiaeth ecsentrig sydd i'w chroesawu.



*Uchod a brig: Ar y cyfan, mae ffenestri gwreiddiol wedi goroesi'n well ar loriau uchaf adeiladau masnachol fel y dangosir gan yr enghreifftiau hyn sydd â 4 a 12 o gwarelau ar Market Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde canol: Mae ffenestri codi â 12 o gwarelau i'w gweld o hyd yn y tŷ hwn ar Williams Street (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde: Mae ffenestri codi 4 a 6 chwarel i'w gweld o hyd meun tai yn Greenfield Terrace yn Kingsland Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Mae'r simneiau a'r toeon llechi sydd wedi goroesi — fel y rhain ar Vulcan Street — yn helpu i roi cymeriad cydlynol i'r dref (© Hawlfaint y Goron: CBHC).*



*Mae'r manylion a roddwyd o amgylch drysau a ffenestri yn amrywio o stryd i stryd. Mae'r ffaith eu bod wedi goroesi yn bwysig am ei bod yn bosibl eu bod yn gwahaniaethu rhwng crefftwyr gwahanol. Daw'r enghreifftiau hyn o Thomas Street (chwith pellaf) a Moreton Street (chwith) (© Hawlfaint y Goron: CBHC).*

Er i'r gorffeniadau a'r manylion gwreiddiol gael eu colli, mae unfurfiaeth y gwaith datblygu mewn rhesi parhaus yn rhoi cymeriad cydlynol i'r dref, y mae'r toeon llechi a'r simneiau sydd wedi goroesi hefyd yn gyfrannwr pwysig ato. Mae gwahaniaethau i'w gweld o hyd i ryw

raddau yn yr amrywiaeth o fanylion a osodwyd o amgylch drysau a ffenestri; ymddengys eu bod yn amrywio yn ôl y stryd neu'r bloc o adeiladau yn y stryd a gallant ddynodi'r gwahanol adeiladwyr a chrefftwyr a gyfrannodd at greu'r dref.



## Adeiladu a Pheirianeg

Mae i dref Caerdybi ei chymeriad pensaernïol ei hun, ond cyfres o brosiectau peirianyddol mawr, sydd â'i nodweddion pensaernïol eu hunain, a'i gosododd ar y map ac a anogodd ei thwff. Roedd yr harbwr ac yn enwedig y morglawdd mawr yn brosiectau heriol iawn a oedd yn gofyn am dechnegau adeiladu arloesol a deunyddiau adeiladu cadarn. Defnyddiodd y ddau ohonynt gymysgedd o gerrig lleol ar gyfer y gwaith craidd a chalchfaen o fannau eraill ar Ynys Môn ar gyfer arwynebau allanol. Roedd y prosiectau adeiladu a oedd yn gysylltiedig â nhw (ac yn benodol yr adeiladau swyddogol ar Ynys yr Halen) hefyd yn gofyn am ddeunyddiau statws uchel a fyddai'n gymesur â statws yr adeiladau eu hunain.

*Uchod: Defnyddiodd yr adeiladau swyddogol ar Ynys yr Halen, gan gynnwys Bwa'r Morlys, swyddfa'r harbwr a'r tollty, gerrig adeiladu o ansawdd da i adlewyrchu eu statws (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*



*Y chwarel ar gyfer y cerrig a ddefnyddiwyd ar gyfer y morglawdd mawr (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



# Ardaloedd â Nodweddion



*Eglwys Cybi Sant, a saif o fewn muriau'r hen gaer Rufeinig, yw un o'r adeiladau hynaf yn y dref (© Hawlfraint y Goron (© Croeso Cymru).*

## I. Y Canol: Y Craidd Trefol

### Cefndir Hanesyddol

Yng nghanol y dref ceir olion y gaer Rufeinig, sy'n cynnwys dwy eglwys ganoloesol Cybi Sant ac Eglwys y Bedd. Mae'n debyg nad yw'r un adeilad arall yng nghanol y dref yn gynharach na

diwedd ddeunawfed ganrif ac mae'r rhan fwyaf yn dyddio o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r dref wedi'i strwythuro o amgylch echel linellol hen lwybr drwodd i angorfa hanesyddol i'r gogledd. I ffwrdd oddi wrth linell hir y stryd hon, goroesodd patrwm o gaeau bach a lleiniau o dir tan ymhell i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer datblygiadau preswyl yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*Mae Stanley House (canol) ac Eglwys Cybi Sant (dde canol) yn edrych dros linell wreiddiol blaen y traeth, lle y saif Victoria Road heddiw (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*



*Mae'r tai yn rhan isaf Market Street (brig), a safai ar y prif lwybr drwy'r dref cyn i Victoria Road gael ei hadeiladu, yn gymharol fach o'u cymharu â'r rhai yn rhan uchaf Market Street (chwith isaf). Mae'n bosibl bod y gwahaniaeth hwn yn ymwneud â chynnydd yng ngraddfa a chyflymder gwaith datblygu yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a achoswyd gan fuddsoddiad newydd yn yr harbwr a'r systemau trafndiaeth cysylltiedig (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Mae rhywfaint o dystiolaeth o gymeriad y dref cyn y gwaith ailadeiladu hwn a'r twf a welwyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dengys lluniau o'r dref sy'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif gyfres o dai ar wahân eithaf sylweddol yng nghanol y dref, ond ymddengys iddo gael ei ailddatblygu'n sylweddol o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen ac yn enwedig rhwng dechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i fuddsoddiad newydd mewn trafndiaeth a'r harbwr sicrhau ffyniant newydd i'r dref. Ceir rhyw syniad o raddfa a chyflymder y newid, o bosibl, drwy gymharu'r

tai cymharol fach a leolir yn rhan isaf ochr ddwyreiniol Market Street a'r rhesi llawer mwy uchelgeisiol sy'n nodweddu'r rhannau uchaf a Stanley Street.

Buan y magodd y gwaith ailddatblygu hwn gymeriad masnachol, pwyslais a atgyfnerthwyd yn yr ugeinfed ganrif pan gafodd adeiladau domestig a oedd wedi goroesi yng nghanol y dref eu dymchwel a'u disodli gan rai newydd. Er enghraifft, disodlwyd tŷ gan Sinema'r Empire a chafodd pocedi bach o dai, megis y rhai i'r gogledd o'r fynwent eu dymchwel.



*Dde isaf: Atgyfnerthwyd natur fasnachol canol y dref drwy ddymchwel tai ac adeiladu eiddo masnachol, gan gynnwys Sinema'r Empire yn y 1920au (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*





Mae Stanley House, sydd wedi cadw ei gymeriad domestig, bellach yn eithriad prin i bwyslais masnachol canol y dref. Un o'r adeiladau cyntaf sy'n gysylltiedig â thwf masnach oedd hen Westy'r Eagle and Child. Fe'i hadeiladwyd yn 1770, er bod rhan wreiddiol yr adeilad bellach wedi'i dymchwel gan adael dim ond ychwanegiadau sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng dechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a newidiwyd pan gafodd y gwesty ei addasu i'w ddefnyddio fel tai. Rhwng dechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg sefydlwyd ffurf nodweddiadol canol y dref gyda chyfres o resi o dai teras, a oedd yn cynnwys siopau â llety uwchben.



Islaw'r brif echel, crëwyd Victoria Road fel rhan o'r gwelliannau a wnaed i'r harbwr yn y 1820au, gan roi mynediad uniongyrchol o London Road i'r harbwr newydd. Roedd y gwaith o'i hadeiladu yn cynnwys adfer y draethlin gynharach ac adferwyd rhagor o dir pan fferfiwyd yr harbwr mewnol yn y 1870au. Roedd gwaith datblygu ar y draethlin orllewinol wedi'i chyfyngu cyn hynny i'r ardal o amgylch y pentir lle'r adeiladwyd yr iard forol yn ddiweddarach. Sefydlwyd hen gapel Wesleiaidd Bethel yn 1808 yn yr ardal hon.



*Brig: Mae Stanley House, a adeiladwyd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi cadw ei gymeriad domestig yn wahanol i'r adeiladau eraill ar Market Street a Stanley Street (© Haulfraint y Goron: CBHC).*

*Uchod: Saif Victoria Terrace ar safle Gwesty'r Eagle and Child, a adeiladwyd yn 1770. Mae'r adeiladau sydd wedi goroesi yn dyddio o'r cyfnod rhwng dechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan addaswyd y gwesty i'w ddefnyddio fel tai (© Haulfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith: Hen gapel Wesleiaidd Bethel ar Victoria Road (© Haulfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*

Mae rhifau 74–102 Market Street yn nodweddiadol o'r adeiladau Sioraidd trillawr sy'n sefyll ar hyd y brif stryd drwy ganol y dref, gyda siopau ar y llawr gwaelod a llety uwchben (© Hawlfraint y Goron: CBHC).



Dde isaf: Mae ffasâd wedi'i rendro cyflawn i'w weld o hyd ar dafarn y Stanley Arms, sy'n nodweddiadol o ddechrau'r ugeinfed ganrif, gyda rendr wedi'i sianelu ar y llawr gwaelod a phlastr garw ag addurniadau llyfn uwchben (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

Isod: Llythrennau wedi'u rendro dyrchafedig ar Westy'r George a Clifton House. Noder hefyd y ffenestr godi a'r bocs cynfas ar y siop bysgod yn Clifton House (© Hawlfraint y Goron: CBHC).

## Nodweddion Adeiladu

Rhesi teras trillawr, ac iddynt gymeriad cynhenid Sioraidd cynnil, a geir yn bennaf ar hyd y brif echel. Mae bron y cyfan o linell y stryd drwy ganol y dref yn cynnwys adeiladau masnachol, gyda blaenau siopau ar y llawr gwaelod a llety preswyl uwchben. Er eu bod yn amrywio o ran hyd ac uchder, sicrheir unfurfiaeth drwy ffryntiadau gwastad rheolaidd a llinellau bondo sy'n gyson o fewn pob bloc o adeiladau. Ceir simneiau rheolaidd, sy'n aml yn sylweddol, bob hyn a hyn ar hyd llinellau to.

Mae gorffeniadau traddodiadol (rendr llyfn neu sgrafellog a phlastr garw cynnar wedi'i gyfuno ag addurniadau wedi'u rendro llyfn), i'w gweld o hyd ar lawer o'r adeiladau trefol hyn, er bod y cerrig weithiau wedi'u hamlygu yn y cefn ac ar

simneiau. Mae ffasâd wedi'i rendro cyflawn i'w weld o hyd ar dafarn y Stanley Arms, gyda rendr wedi'i sianelu ar y llawr gwaelod a phlastr garw ag addurniadau llyfn uwchben. Mae'n debyg bod hyn yn dystiolaeth dda o'r driniaeth draddodiadol a oedd yn cael ei rhoi i ffasadau erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif.

Mae cryn dipyn o'r manylion traddodiadol ar y lloriau uchaf i'w gweld o hyd, ond mae llai o fanylion wedi goroesi ar y llawr gwaelod, er bod y ffryntiad â ffenestr godi gyda'i focs cynfas ar y siop bysgod yn Clifton House, Market Street, yn eithriad nodedig. Mae'r lloriau uchaf yn dangos amrywiaeth dda o fathau o ffenestri, rhai ag architraffau addurnol a mowldinau capan. Mae llythrennau wedi'u rendro dyrchafedig hefyd yn nodwedd bwysig, er enghraifft, yn Clifton House a Gwesty'r George ar Market Street.





Torrir ar unfurfiaeth y rhesi hyn gan rai prosiectau adeiladu unigol (y cynharaf ymhlith y rhain yw'r farchnad sy'n dyddio o 1855). Mae'r rhan fwyaf o'r lleill yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ddechrau'r ugeinfed ganrif ac maent yn cynnwys Tŷ Cyfle (tua 1900), yr adeiladau masnachol a geir o boptu i fynedfa'r farchnad (1905 a 1906), hen Fanc North and South Wales a adeiladwyd yn 1899, a hen Fanc National Provincial sy'n dyddio o 1900. Nodweddir yr adeiladau masnachol unigol hyn gan y defnydd o arddulliau pensaernïol nodedig a, heblaw neuadd y farchnad, ddeunyddiau a fewnforiwyd.



*Uchod: Ysbrydolwyd neuadd y farchnad, a adeiladwyd yn 1855, gan arddulliau Jacobeaidd mewn cyferbyniad â phensaerniaeth Sioraidd gynharach y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Chwith: Mae wyneb blaen teils tafarn The Albert Vaults yn ychwanegu gorffeniad gwahanol i'r amrywiaeth o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer adeiladau masnachol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae Tŷ Cyfle yn dyddio o tua 1900 ac fe'i hadeiladwyd mewn arddull nodedig yr ymddengys ei bod yn perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Un o'r ddau adeilad masnachol a adeiladwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a saif o boptu i neuadd y farchnad (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae'r hen North and South Wales Bank, a adeiladwyd yn 1899 o frics coch nodedig ag addurniadau o dywodfaen golau, yn dangos cyfraniad deunyddiau a fewnforiwyd at gymeriad y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae'r hen National Provincial Bank a adeiladwyd yn 1900, yn defnyddio cerrig nadd tywodfaen, sydd hefyd yn ddeunydd a fewnforiwyd i'r dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





Mae Stanley House yn enghraifft brin o fath o adeilad domestig sydd wedi goroesi ac ar un adeg hwn oedd tŷ trefol y teulu Stanley. Mae'r adeilad gwreiddiol, a adeiladwyd tua 1810 ac sy'n

wynebu'r hen farchnad, a'r estyniadau sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac y gellir eu gweld o Victoria Road, yn hollol ddomestig o ran eu cymeriad.



*Uchod: Mae drychiad cefn Stanley House yn dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r adeilad, sydd mewn arddull sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, yn dal i fod yn hollol ddomestig yn hytrach na masnachol o ran ei gymeriad (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith: Mae wal yr harbwr ar Victoria Road yn dal i fod yn ffin sylweddol rhwng y dref a'r harbwr (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

Ar Victoria Road, mae wal derfyn y doc yn nodwedd arbennig, ond cefnau di-raen eiddo ar Market Street (y mae manylion da wedi goroesi ar rai ohonynt), neu estyniadau anghymesur sy'n dyddio o'r ugeinfed ganrif, yw'r elfennau amlycaf yn y treflun. Mae gwaith adnewyddu ger Stanley House wedi dechrau unioni'r difrod a wnaed gan esgeulustod

blaenorol ac mae'n cydnabod yr amlygiad y mae lefelau cynyddol o draffig wedi'i roi i'r cefnau hyn. Ymhlith yr adeiladau sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi goroesi ar Victoria Road mae rhesi teras lle mae rhai gorffeniadau rendr a phlastr garw i'w gweld o hyd, yn ogystal â manylion gwreiddiol eraill gan gynnwys ffenestri codi.

*Dde: Mae cefnau eiddo sy'n edrych dros Victoria Road yn amharu ar gymeriad banesyddol y dref (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*



*Mae rhai nodweddion gwreiddiol sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan gynnwys ffenestri codi a gorffeniadau rendr traddodiadol, i'w gweld o hyd ar y tai yn rhifau 1 i 4 Land's End ar Victoria Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





## 2. Y Canol: Datblygiadau Preswyl

### Cefndir Hanesyddol

Mae gwahaniaeth amlwg rhwng prif echel gwaith datblygu drwy'r dref a'r ardal yn union i'r gorllewin ohoni, nas datblygwyd yn systematig tan ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dengys map y degwm batrwm afreolaidd o leiniau y nodir eu ffiniau gan linellau Thomas Street, Cambria

Street a Summer Hill, a Williams Street. Maent yn cynnwys patrwm damweiniol o waith datblygu lle roedd Thomas Street eisoes wedi'i sefydlu fel echel gydlynol ar gyfer adeiladu, gyda'r terasau cyntaf ar yr ochr ddeheuol yn bodoli yn 1840. Daeth ffiniau lleiniau yn ffyrdd neu'n llwybrau yn ddiweddarach, gan ffosileiddio patrwm wedi'i etifeddu o berchenogaeth tir i ryw raddau, er mai dim ond rhannau o'r patrwm sydd wedi goroesi'r gwaith ailddatblygu. Er enghraifft, mae Williams Street, Tower Gardens a'r llwybr troed o faes parcio Hill Street ymhlith y ffiniau lleiniau sydd wedi goroesi.



*Mae llinellau afreolaidd Cambria Street (brig) a Summer Hill (gwaelod) yn adlewyrchu'r ffiniau lleiniau damweiniol a ddangosir ar fap y degwm sy'n dyddio o'r 1840au (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Nodweddion Adeiladu

Ceir datblygiadau preswyl mewn rhesi o dai teras, y mae llawer ohonynt yn agor allan yn uniongyrchol ar y palmentydd, ac maent yn dyddio o'r cyfnod rhwng 1850 a 1880. Mae topograffi'r ardal a'r



*Uchod: Defnyddiwyd y rendr garw gwreiddiol a'r ffenestri codi â chwarelau bach sydd i'w gweld o hyd yn y tŷ hwn ar Williams Street fel y model ar gyfer rhywfaint o waith adnewyddu sensitif (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde: Mae tafarn y Cambria Inn yn cyfuno architrafau a chonglfeini rendr llyfn â gorffeniad garw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Dde pellaf: Mae tafarn y Caernarfon Castle wedi cadw ei orffeniad rendr llyfn gwreiddiol gydag architrafau wedi'u codi syml (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Dde: Mae manylion blaen siop gwreiddiol, gan gynnwys drysau a ffenestri, i'w gweld o hyd ar y British Stores (49 Thomas Street) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

strwythur dal tir sylfaenol, lle mae ffyrdd yn dilyn ffiniau, yn rhoi cymeriad nodedig i'r strydoedd hyn y mae gan eu llinellau adeiladu grisiog a chrwm, sy'n cynnwys simneiau rheolaidd bob hyn a hyn, nodweddion pictiwresg cryf. Prin iawn yw'r manylion gwreiddiol sydd wedi goroesi. Fodd bynnag, mae tŷ ar Williams Street, sydd â phlastr garw traddodiadol a ffenestri codi â chwarelau bach o hyd, yn enghraifft bwysig sydd wedi goroesi ac sydd eisoes wedi bod yn fodel ar gyfer rhywfaint o waith adnewyddu sensitif. Mewn mannau eraill, mae rhai o'r gorffeniadau rendr addurnol wedi goroesi er gwaethaf y defnydd helaeth o ro chwipio ac maent yn dal i roi rhywfaint o amrywiaeth i'r rhesi o dai teras. Mae gorffeniadau traddodiadol i'w gweld o hyd ar y Cambria Inn a thafarn y Caernarfon Castle. Mae hen blastr garw wedi'i gyfuno ag architrafau a chonglfeini wedi'u rendro llyfn ar y Cambria Inn ac mae gan dafarn y Caernarfon Castle rendr llyfn ag architrafau wedi'u codi llyfn. Mae 49 Thomas Street yn enghraifft brin sydd wedi goroesi o siop draddodiadol lle mae'r drysau a'r ffenestri gwreiddiol i'w gweld o hyd yn ogystal â'r blaen siop gwreiddiol.





### 3. I'r Gogledd o Ganol y Dref

#### Cefndir Hanesyddol

Nid oes unrhyw ymyl bendant i ganol y dref i'r gogledd ond, y tu hwnt i St Cybi's Street, mae i'r ardal gymeriad gwahanol ac fe'i nodweddir yn bennaf gan strydoedd preswyl a ddatblygwyd yn ddwys a chlofan Marine Square, sydd ar wahân i ryw raddau. Mae lluniau cynnar o'r dref yn awgrymu bod yr anheddiad wedi parhau i fodoli am amser hir yn agos at y draethlin i'r gogledd-ddwyrain o ganol y dref. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth ar ôl o unrhyw anheddiad a oedd yn bodoli cyn i Marine Square gael ei hadeiladu, a oedd yn gynnyrch ymgais i sefydlu cyrchfan gwyliau yng Nghaergybi yn y 1770au. I'r gorllewin o'r ardal hon, mae map y degwm yn cofnodi patrwm o gaeau a lleiniau bach i'r gogledd o Newry Street a oedd yn rhoi mynediad i sawl tyddyn ond nad oeddent yn parhau drwodd i'r lan ogleddol. Ac nid oedd yn bosibl cyrraedd y lan ogleddol drwy Marine Square ychwaith – mae'r ffordd drwodd yma (sef Prince of Wales Road) yn gymharol ddiweddar. Mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau preswyl yn dyddio o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac maent wedi goroesi'n dda o amgylch Newry Street a Cybi Place, ond mae gwaith datblygu i'r gogledd o Water Street yng nghanol yr ugeinfed ganrif wedi amharu ar batrwm strydoedd hanesyddol a oedd yn adlewyrchu ffiniau caeau cynharach i raddau helaeth.



*Mae tai ar Newry Street (brig) a North West Street (uchod) yn adlewyrchu cymeriad yr ardal hon cyn i Prince of Wales Road gael ei hadeiladu i gysylltu Marine Square â'r lan ogleddol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Mae Marine Square yn glofan ar wahân a dyma'r cyfan sy'n weddill o ymgais i sefydlu Caergybi fel cyrchfan gwyliau yn y 1770au (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae'r tai ar Newry Street yn amrywio o derasau sy'n agor allan ar y palmant, y mae rhai obonynt wedi cadw eu gorffeniad plastr garw a'u harchbitrafau wedi'u rendro gwreiddiol (brig) i dai mwy o faint a adeiladwyd o frics sydd â manylion addurnol (dde) (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

## Nodweddion Adeiladu

Nodweddir yr ardal yn bennaf gan derasau a adeiladwyd yn agos at ei gilydd gyda thai sy'n agor allan yn uniongyrchol ar y stryd. Er mai rendr gro chwipio a geir gan amlaf ar y tai, ceir ambell enghraifft sydd wedi goroesi o dai â gorffeniadau traddodiadol (plastr garw a rendr sgrafello) ac mae amrywiaeth fywiog o addumiadau wedi'u rendro'n llyfn i'w gweld o hyd. Mae tai mwy o faint ym mhen uchaf Newry Street yn cyflwyno manylion gwahanol gyda'u haddumiadau brics a'u manylion addurnol eraill. Er mai dim ond rhan o ensemble gwreiddiol Marine Square sydd wedi goroesi, mae i'r adeiladau yma statws sy'n eu gosod ar wahân i'r strydoedd preswyl cyfagos.



*Mae i'r adeiladau ar Marine Square statws sy'n eu rhoi ar wahân i'r strydoedd preswyl (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## 4. Gorllewin a De-orllewin Caergybi

### Cefndir Hanesyddol

I ffwrdd oddi wrth ganol y dref, roedd y patrwm cynnar o ddefnydd tir yn batrwm tameidiog iawn o gaeau bach iawn. Roedd rhai o'r rhain yn llain-gaeau tra nad oedd eraill yn ddim mwy na pharseli afreolaidd o dir. Darparodd y patrwm hwn y fframwaith ar gyfer twf y dref ar ôl tua 1850, a ddigwyddodd fesul tipyn i raddau helaeth wrth i wahanol leiniau o dir ddod ar gael i'w datblygu. Mae hyn yn esbonio rhywfaint o'r patrwm strydoedd afreolaidd, er enghraifft, o amgylch Upper Baptist Street a Moreton Road, ond ni oroesodd y patrwm y gwaith ailddatblygu ar raddfa fawr a welwyd mewn manau eraill yn ystod yr ugeinfed ganrif. Yn rhedeg ar draws yr ardal roedd lonydd a wasanaethai'r fferymydd a'r aneddiadau lleol, a helpodd hyn i strwythuro a chysylltu aneddiadau yn ddiweddarach. Mae'r rhain yn cynnwys Mill Bank, Garregllwyd Road a South Stack Road. Gwaddol yr hanes cynnar hwn yw patrwm nodedig o strydoedd bylchog a ffiniau pendant achlysurol sy'n nodi perchenogion neu



*Brig: Moreton Road — un o'r strydoedd a ddatblygwyd fesul tipyn wrth i leiniau o dir ddod ar gael (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Uchod: Tai ar Mill Bank Terrace (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith: Llun o Leiandy Bon Sauveur, a dynnwyd o'r awyr yn y 1920au, sy'n ei dangos yng nghanol ystad Ucheldre (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms).*



*Station Street — yn agos at ben derfynfa'r rheilffordd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



unedau datblygu ar wahân. Mae un o'r mwyaf nodedig o'r rhain i'w chael yn Ucheldre, sef cnewyllyn ystad fach. Yng nghanol yr ardal hon adeiladwyd Lleiandy Bon Sauveur yn 1907. Roedd y patrwm cynnar o ddefnydd tir yn anarferol a nodedig iawn, ac mae'r ffordd y cafodd gwaith datblygu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ei ffitio i mewn i'r fframwaith o gaeau a lleiniau a etifeddwyd yn rhoi cymeriad cryf i'r ardal hon ar gyrion Caerdybi.

Mae'n debyg bod twf y dref wedi'i sbarduno gan y prosiectau seilwaith mawr a oedd yn mynd rhagddynt yn y 1850au, gan gynnwys y rheilffordd a'r morglawdd mawr. Rhoddodd hen derfynfa'r rheilffordd, yn agos at dafamdaï'r Five Sisters ar waelod Holborn Road, ffocws i gnewyllyn masnachol bach ac fe'i coffeir hefyd yn enw Station Street.

### Nodweddion Adeiladu

Ardal breswyl yw hon yn bennaf ac, ar y cyfan, mae'n cynnwys tai teras. Mae cryn gymysgedd o adeiladau o wahanol statws, sy'n amrywio o strydoedd o dai bach a adeiladwyd yn agos at ei gilydd i derasau o dai mwy o faint a thai pâr mwy sylweddol, a thai filâu ar wahân. Daw llawer o'r amrywiaeth hon o'r patrwm datblygu nodedig wrth i ddatblygwyr adeiladu ar barseli gwahanol o dir ar wahanol adegau. Mae'r patrwm o strydoedd

a llwybrau, sy'n aml yn ddigyswilt, a phresenoldeb nodweddion ffiniol cryf, yr un mor bwysig â manylion yr adeiladau eu hunain i roi ei chymeriad i'r ardal hon. Hefyd, roedd datblygiadau unigol yn aml yn cael eu dynodi gan waliau terfyn sydd weithiau wedi goroesi'r adeiladau eu hunain, er enghraifft, ar safle'r Ysgol Genedlaethol ar Rhos y Gaer Avenue.



*Mae'r waliau terfyn a'r lôn wrth ochr yr hen Ysgol Genedlaethol yn dal i fod yn nodweddion cryf (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





Mae'r rhan fwyaf o'r tai wedi cael eu gorchuddio â gro chwipio, ond lle mae gorffeniadau cynharach i'w gweld o hyd, rendr garw ydynt gan amlaf. Mae addurniadau wedi'u rendro yn aml wedi goroesi gwaith modemeiddio. Mae'r amrywiaeth o fanylion yn y rhain yn nodwedd wahaniaethol bwysig sy'n cyflwyno hynod rwydd trawiadol i'r hyn a allai fel arall fod yn unffurfiaeth ddiafael. Prin yw'r deunyddiau addurno eraill ond ceir ambell enghraifft o frics. Roedd terasau ac unedau datblygu hefyd yn cael eu nodweddu gan amrywiadau mewn maint a nodweddion a oedd yn gweithredu fel symbolau statws megis ffenestri bae a dormer. Prin yw'r nodweddion gwahaniaethol ymhlith y tai teras: mae'r ffenestri bae a'r portshys cysylltiedig ar Ucheldre Avenue yn wyriad diddorol oddi wrth y confensiwn lleol. Mae gan y rhan fwyaf o'r tai teras erddi blaen bach ac mae'r driniaeth a roddwyd i'w ffiniau hefyd yn elfen bwysig o'r cymeriad lleol: mae llwybrau teils sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w gweld o hyd yn rhai o'r gerddi hyn.

*Mae ffenestri bae a phortshys cysylltiedig anarferol yn nodwedd arbennig ar Ucheldre Avenue (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Chwith: Mae Vulcan Street yn nodweddiadol o derasau â thai llai o faint sy'n agor allan yn uniongyrchol ar y palmant. Yma, mae rhai o'r tai wedi cadw eu gorffeniad plastr garw gwreiddiol ag addurniadau syml wedi'u rendro'n llyfn, (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae ffenestri bae a gerddi blaen bach yn symbolau o statws tai mwy o faint ar Holborn Road (dde isod) a Maesbyfryd Road (chwith isod). Noder bod y waliau terfyn a'r addurniadau yn cael eu trin yn wahanol ym mhob ffordd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Ceir amrywiaeth o dai mwy o faint ar Gors Avenue. Noder yr amrywiadau yn y manylion addurnol a'r waliau terfyn nodedig (© Hawlfraint y Goron): CBHC).*

Cymharol brin yw'r tai mwy o faint, ond mae Forcer Hill ac, yn arbennig, Gors Avenue yn sefyll allan. Yma, roedd amrywiaeth ehangach o fathau o adeiladau yn gyffredin, y mae llawer ohonynt yn dal i fod yn seiliedig ar draddodiadau clasurol, er bod ambell enghraifft o adeilad yn yr arddull celf a chrefft. Mae'r waliau wedi'u gorchuddio â rendr llyfn yn bennaf, er bod amrywiaeth fywiog o fanylion eraill. Mae manylion ffiniau hefyd yn amrywio, er enghraifft, gyda chalchfaen wedi'i





dreulio gan ddŵr yn Forcer Hill a waliau nodedig ar Gors Avenue.

Mae ardal fasnachol fach ar waelod Holborn Road yn adlewyrchu pwysigrwydd yr ardal hon ar un adeg fel cyffordd London Road a'r hen ffordd bost, ger yr orsaf reilffordd gyntaf a oedd

yn golygu ei bod yn borth gwirioneddol i'r dref. Mae tafarndai'r Five Sisters a'r rhodfa o siopau i'r de o Holborn Road wedi cadw rhai gorffeniadau traddodiadol (rendr garw) a manylion nodedig, megis y cornisiau wedi'u mowldio ar y Dublin Packet a rhagfur uchel New Chester House â'i lythrennau dyrchafedig.

*Tafarndai'r Five Sisters ar waelod Holborn Road. The Dublin Packet yw'r adeilad coch sydd bellach yn sefyll ar safle dau o'r pum tafarn gwreiddiol a oedd wedi'u lleoli yma (© Hawlfraint y Goron CBHC).*



*Mae New Chester House wedi cadw ei lythrennau dyrchafedig ar y rendr garw gwreiddiol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Brig: Elusendai Penrhos (Stanley Cottages) wrth y gyffordd rhwng Tyn Pwll Road a Cyttir Road, y mae'n bosibl bod y ddwy ohonynt yn brif dramwyfeydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Uchod: Anheddiad llinellol ar hyd Kingsland Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Dde: Datblygwyd ystad Treseifion yn y 1950au ar gaeau bach i'r gogledd o Porthdafach Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## 5. De Caergybi a Kingsland

### Cefndir Hanesyddol

Ardal wledig oedd hon yn bennaf tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er bod gwaith datblygu wedi digwydd yn ysbeidiol ar gyrion y dref, gan gynnwys y fynwent a'r gwaith nwy. Y ddwy brif echel o ddatblygiadau a oedd wedi ymddangos erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd yr hen ffordd i Borthdafarch a'r hen ffordd bost (Kingsland Road bellach) i Four Mile Bridge, yn ogystal â'i rhagflaenydd posibl, sef Tyn Pwll Road, lle yr adeiladwyd elusendai Penrhos yn 1866. Roedd y patrwm anheddu yn yr ardal hon yn un llinellol yn y bôn tan ganol yr ugeinfed ganrif. Yn y 1950au, cymerwyd y caeau bach i'r gogledd o Porthdafarch Road er mwyn datblygu ystad Treseifion. O'r 1960au, parhaodd y gweithgarwch anheddiad i ehangu i'r de, wedi'i strwythuro o amgylchedd y prif lwybrau o hyd i raddau helaeth. Roedd ardal Kingsland Road yn ardal wella cyffredinol yn y 1970au ac mae'n dwyn i gof ddulliau adnewyddu cyferbyniol gydag ymyrraeth gymharol geidwadol yn Penrhos View a newidiadau mwy sylweddol yn Tyn Pwll Road, lle y cafodd ffasadau cyfan eu hailfodelu.



## Nodweddion Adeiladu

### Kingsland Road (Hen Ffordd Bost)

Terasau hir o dai bach a geir yn bennaf ar Kinglands Road, y mae rhai ohonynt yn agor allan yn uniongyrchol ar y palmant, er bod gan lawer erddi blaen bach. Ceir ambell enghraifft o dai lle mae'r rendr gwreiddiol i'w weld o hyd ond prin yw'r manylion; mae'r terasau hyn wedi'u gorffen yn syml iawn. Roedd y terasau ar Porthdafarch Road ychydig yn fwy ac wedi'u harddu ag addumiadau wedi'u rendro. Mae gan dai bach ar Arthur Street fanylion anarferol ar ffurf mowldinau capan. Ceir tai pâr mwy o faint o oes Edward a'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd ar ben y bryn, lle mae'r felin wynt yn nodwedd bwysig sy'n ein hatgoffa bod hon yn ardal amaethyddol ar un adeg. Mae ystad Treseifon yn ymgorffori llawer o egwyddorion cynllunio pictiwrésg a oedd yn nodweddiadol o raglenni adeiladu tai cyngor yn y 1950au.



*Chwith ac uchod: Mewn manau eraill ar Kingsland Road, mae'r terasau yn dangos amrywiaeth o ran maint a manylion; mae'r rendr gwreiddiol i'w weld o hyd ar rai tai (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Nodweddir y tai ar Greenfield Terrace ar Kingsland Road gan ffenestri bae ar y llawr gwaelod a gerddi blaen bach (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Dde: Tai ar Arthur Street lle mae manylion anarferol ar ffurf mowldinau capan i'w gweld o hyd (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Chwith isod a dde: Tai sy'n dyddio o'r 1950au yn Nhan-yr-Efail (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*





## 6. Porth-y-Felin a Gogledd Caergybi

### Cefndir Hanesyddol

Ardal gwbl amaethyddol oedd hon tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Porth-y-Felin yn fferm (sydd bellach yn dafarn) a datblygwyd y terasau y tu hwnt i'r llinell reilffordd ar yr hyn a arferai fod yn un cae bron. Dengys map y degwm dyddynnod bach eraill i'r dwyrain a phatrwm o gaeau bach y gosodwyd Walthew Avenue a Bryn Goleu ynddo ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Crëwyd New Park Road hefyd fel estyniad i Walthew Avenue, gan anwybyddu y tro hwn ffiniau cynharach, a gafodd eu hanwybyddu hefyd mewn datblygiadau eraill sy'n dyddio o'r 1930au wrth i strydoedd newydd a oedd yn cysylltu Caergybi â Phorth-y-Felin gael eu cynllunio ar gyfer datblygiadau maestrefol agored.



Parhaodd Wal y Bwrdd Masnach a oedd yn nodi ffiniau'r daliadau tir swyddogol a oedd yn gysylltiedig â'r harbwr a'r morglawdd ar ôl 1850 â'r datblygiad hwn i'r gogledd. Mae'n dal i fod yn ffin bendant a nodedig, sy'n gwahanu datblygiadau preswyl oddi wrth y tir agored i'r gogledd.

*Uchod a chwith: Tai sy'n dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif ar Walthew Avenue a adeiladwyd ar gaeau bach i'r gogledd o'r dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Chwith isaf: Bryn Goleu, a gynlluniwyd yr un pryd â Walthew Avenue (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Isod: Adeiladwyd New Park Road fel estyniad i Walthew Avenue yn y 1930au (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## Nodweddion Adeiladu

Ymddengys fod Porth-y-Felin wedi datblygu fel chwarter morol nodedig ac, er bod rhai o'r tai yma yn rhannu nodweddion â'r tai teras mewn mannau eraill yng Nghaergybi, fel arfer mae'r terasau yn fyrrach nag mewn mannau eraill yn y dref. Mae un rhes o dai wedi'u rendro'n wyn â chomisau trwm, mowldinau capan a ffenestri bae sgwâr yn sefyll allan oherwydd ei chymeriad morol sy'n anarferol ym mhensaernïaeth ddomestig y dref. Mae Walthew Avenue a Bryn Goleu yn cynnwys amrywiaeth o fathau o dai mwy o faint,

gan gynnwys rhai terasau trawiadol. Mae'r rhain yn cyflwyno amrywiaeth o arddulliau, gan gynnwys rhywfaint o waith celf a chrefft, ac amrywiaeth gyfatebol o ddeunyddiau gan gynnwys brics, terracotta a llechi a fewnforiwyd. Mae gwaith datblygu ar New Park Road, Seabome Road, Min y Mor Road a Tan y Bryn Road yn cynnwys tai pâr ar safleoedd helaeth, ar y cyfan. Er bod llawer o'r tai yn adeiladau hapfasnachol confensiynol, ceir rhai enghreifftiau o gomisiynau unigol sydd wedi defnyddio arddulliau mwy dychmygus. Saif y rhan fwyaf o'r tai yn yr ardal hon o fewn lleiniau sylweddol o dir ac mae waliau terfyn yn helpu i roi natur unigryw benodol i'r strydoedd.



*Dde ac isod: Mae i Borth-y-Felin gymeriad morol amlwg gyda'i derasau wedi'u rendro'n wyn, sy'n aml yn llawer byrrach nag mewn mannau eraill yn y dref (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Chwith: Mae Bryn Marchog yn enghraifft arbennig o dda o gymeriad morol gyda'i chornisiau trwm, mowldinau capan a ffenestri bae sgwâr (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Canol a gwaelod: Mae Bryn Goleu yn cynnwys amrywiaeth o dai a adeiladwyd mewn amrywiaeth o arddulliau (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae Walthew Avenue yn cynnwys amrywiaeth o dai mwy o faint mewn amrywiaeth o arddulliau a deunyddiau (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*







*Chwith a chwith isaf:  
Tai ar Seaborne Road  
ac iddynt gymeriad  
celf a chrefft pendant,  
a osodwyd mewn  
lleiniau helaeth â waliau  
terfyn sy'n cyfrannu at  
natur unigryw yr ardal  
(© Hawlfraint y Goron:  
CBHC).*

*Isod: Nodweddir  
New Park Road gan  
dai wedi'u gosod  
mewn lleiniau helaeth  
(© Hawlfraint y Goron:  
CBHC).*



## 7. Ynys yr Halen a'r Harbwr Mewnol

### Cefndir Hanesyddol

*Y derfynfa fferi fodern ar ochr ddeheuol yr harbwr mewnol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Er bod gan Gaergybi rôl bwysig fel porthladd o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg o leiaf, nid oedd cyfleusterau ei harbwr yn gymesur â'i statws tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. O dan gynllun i wella'r harbwr, sefydlwyd Ynys yr Halen (sef safle'r gwaith halen cyn hynny ac, yn ddiweddarach, erddi plaser) fel canolbwynt y porthladd, ac adeiladwyd pier newydd (Pier y Morlys) tua'r dwyrain ohono er mwyn darparu angorfa gysgodol. Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r pier yn 1809 ac fe'i cwblhawyd pan godwyd y goleudy yn 1821. Ar y cei, adeiladwyd swyddfa'r harbwr a'r tollty yn 1823. Daeth cam cyntaf y gwaith i ben pan agorwyd Bwa'r Morlys yn 1824. Fel rhan o'r cam cyntaf, adeiladwyd ail bier (pier y de) ar yr ochr arall i'r fomant yn 1821, ynghyd â'r doc sych a thŷ'r injan bwmpio (1823–26) wedi'i amgáu gan lenfur. Roedd dwy ochr yr harbwr wedi'u cysylltu gan ffordd ddi-dor o amgylch y fomant.

Cafodd yr harbwr ei ehangu'n raddol, yn gyntaf drwy ymestyn y pier ar Ynys yr Halen ar gyfer Cwmni Agerlongau Post Dinas Dulyn ac, yn ail, gan gynllun mwy uchelgeisiol a hyrwyddwyd gan yr LNWR a roddwyd ar waith rhwng 1873 a 1880. Roedd hyn yn cynnwys cloddio'r fomant lanw ac adfer ei hymylon er mwyn creu harbwr llawer mwy o faint, a oedd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â gorsaf newydd, ynghyd ag ail ddoc sych a thŷ injan bwmpio ar y cei cyhoeddus ar ochr ddwyreiniol yr harbwr.



*Golygfa o bell o Ynys yr Halen o'r gorllewin, gyda Phorth-y-Felin yn amlwg yn y blaendir (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Sefydlwyd iard forol hefyd ar safle tollty hŷn a safai ar bentir wrth droed yr hen harbwr. Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r iard forol gan Reilffordd Caer a Chaergybi ac fe'i parhawyd gan yr LNWR ar ôl iddo gymryd y cyntaf drosodd yn 1856. Fe'i datblygwyd fel iard wasanaeth i gefnogi gweithgareddau morol y cwmnïau rheilffordd a oedd yn cystadlu â rhai Cwmni Agerlongau Post Dinas Dulyn a oedd wedi sefydlu Ynys yr Halen fel ei bencadlys. Roedd cam cyntaf y datblygiad hwn rhwng 1852 a 1859, ond fe'i hymestynnwyd yn 1874 i ffurfio cyfadaill helaeth, a oedd yn cynnwys ffwndri, melin lifio a gweithdy adeiladu. Yn y cyfamser, ymgorfforwyd y pentir ei hun, y safai'r iard forol arno, i waith adfer tir, a oedd yn gysylltiedig ag adeiladu'r harbwr mewnol, er mwyn darparu ar gyfer llinellau rheilffordd a siediau nwyddau.

O ddiwedd yr ugeinfed ganrif ymlaen, mae addasiadau y bu'n rhaid eu gwneud i ddiwallu anghenion datblygiadau diwydiannol mawr (Anglesey Aluminium ac Wylfa) ac angenrheidiau masnachol mawr i hwyluso gweithrediad cyfleusterau'r porthladd gan gwmnïau wedi'u preifateiddio wedi arwain at newidiadau ffisegol sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys creu angorfa i fferi geir yn 1965, sefydlu porthladd cynwysyddion yn 1970 a chyfleusterau ar gyfer catamaranau jet-yredig yn 1995–98.



Yn gysylltiedig â'r datblygiadau hyn mae'r gwaith a wnaed i adfer cryn dipyn o dir ar Ynys yr Halen, dymchwel Gwesty'r Station yn 1979 ac adeiladu jeti newydd ar gyfer y gwaith alwminiwm yn 1970 a therfynfa fferi newydd yn 1995–96.

*Gweithdai yn yr iard forol (© Hawlfaint y Goron: CBHC).*



*Yr iard forol, a adeiladwyd mewn dau gam rhwng tua 1852 a 1880 ar y pentir wrth droed yr hen harbwr (© Hawlfaint y Goron: CBHC).*

*Y goleudy, swyddfa'r harbwr a Bwa'r Morlys, a adeiladwyd yn y 1820au, yw'r nodweddion amlycaf ar nenlinell Ynys yr Halen o hyd (© Hawlfraint y Goron (2019), Llywodraeth Cymru).*



### Nodweddion Adeiladu

Mae Ynys yr Halen wedi colli llawer o'r adeiladau gwaith a phreswyl a ddarparwyd pan weithredai fel canolbwynt swyddogol y porthladd ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae llawer o seilwaith hanesyddol yr harbwr wedi goroesi, gan gynnwys y pier gwreiddiol, gyda'i estyniadau eilaidd, a'r goleudy. At hynny, mae'r holl adeiladau ffurfiol ar yr ynys yn dal i fod yn ensemble clasurol trawiadol. Ar ochr arall yr harbwr, mae pier y de, y doc sych a'r tŷ injan cysylltiedig, a'r caeadle â wal o'i gwmpas a oedd yn eu cynnwys, wedi goroesi. Ac, er bod yr ail ddoc sych wedi'i lenwi, mae ei strwythur sylfaenol i'w weld o hyd yn ogystal â thŷ'r injan bwmpio a'i gwasanaethai.

Mae cynllun gorsaf y rheilffordd a sefydlwyd fel rhan o'r gwaith a wnaed rhwng 1873 a 1880 wedi'i niweidio yn sgil colli Gwesty'r Station, ynghyd ag un o ganghennau adeiladau'r orsaf yr oedd iddynt gynllun V, ond mae'r ffordd ddynesu at yr orsaf, ei chynllun a'r hen blatfform dan do ar gyfer trenau a oedd yn cyrraedd, wedi goroesi. Mae'r olaf yn nodedig am ei fod mor anferth ac oherwydd y ffaith ei fod wedi'i adeiladu o frics gyda tho o haearn bwrw a gyr.

Mae'r iard forol hefyd wedi goroesi'n rhyfeddol, gyda rhai o'r adeiladau sy'n dyddio o tua 1852–1859 ac eraill sy'n dyddio o tua 1874–80, i'w gweld o hyd. Mae'r adeiladau yn ffurfio cyfadail tynn, sy'n cynnwys gweithdai, gweithdai adeiladu, efail, ystafell foeler a gweithdy, melin lifio, ffowndris a gweithdai seiri coed.



*Dengys y llun hwn a dynnwyd o'r awyr yr adeiladau sy'n weddill yn yr iard forol ac mae'n rhoi rhyw syniad o natur gyfyng y cyfadail (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## 8. Yr Harbwr Allanol, Soldier's Point a'r Lan Ogleddol

### Cefndir Hanesyddol

Mae map y degwm sy'n dyddio o tua 1840 yn cofnodi bod ardal y lan ogleddol ond yn batrwm o gaeau bach a lleiniau bach o dir, ond, pan ddechreuwyd ar brosiect y morglawdd mawr yn 1857, newidiodd y cwbl. Roedd y cynlluniau cychwynnol ar gyfer yr harbwr noddfa yn cynnwys y morglawdd mawr a phier dwyreiniol arall i ymestyn tua'r gogledd o Ynys yr Halen. Roedd y seilwaith i gefnogi hyn yn ei le gyda rheilffordd yn rhedeg o'r chwareli ar Fynydd Tŵr yn gyfochrog â'r lan hyd at y draethlin greigiog i'r gogledd o Marine Square. Ni chafodd y pier dwyreiniol ei adeiladu erioed, ond roedd llinell y rheilffordd yn dal i fodoli ac roedd wedi dod yn ffordd erbyn y 1880au. Roedd y rheilffordd



*Roedd y morglawdd mawr yn fenter enfawr a gymerodd 28 mlynedd i'w chwblhau.*

*Fe'i hymestynnwyd ddwywaith, gan ymestyn 2,418 metr (7,860 troedfedd) o hyd yn y pen draw (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

rhwng y chwareli a phen y morglawdd wedi goroesi ychydig yn hirach. Roedd sawl prosiect seilwaith diwydiannol yn gysylltiedig ag adeiladu'r morglawdd, gan gynnwys gwaith brics ger y chwareli ac amrywiaeth o weithdai yn agosach at waelod y morglawdd. Yma hefyd, mae adeilad crand Soldier's Point House (a adeiladwyd yn 1849 ar gyfer Charles Rigby, y contractwr ar gyfer y morglawdd) a Government House neu Porth y Felin House (a adeiladwyd yn 1849 ar gyfer G. F. Dobson, y peiriannydd preswyl) yn tystio i uchelgais y prosiect.

*Mae'r lan ogleddol a'r morglawdd mawr yn y blaendir gyda chyfadedilad Ynys yr Halen a'r harbwr mewnlol y tu hwnt (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



Yn ogystal â'r prosiectau adeiladu a pheirianyddol mawr hyn, cafodd y cynllun effaith fawr ar drefniadaeth tir ar y blaendraeth gogleddol, gan nodi ffiniau ardal a oedd y tu allan i awdurdodaeth y dref ac wedi'i gwahanu oddi wrthi gan Wal y Bwrdd Masnach (1849–50). I'r gogledd o'r wal hon, roedd yr unig brosiectau adeiladu sylweddol a gyflawnwyd oll yn gysylltiedig â gweithrediad y porthladd a'r harbwr, gan gynnwys gorsaf gwylwyr y glannau, tŷ'r bad achub (1857), depo Trinity House a'r gweithdai

a adeiladwyd tua 1870 fel y depo cynnal a chadw ar gyfer y goleuadau arfordirol, cartref morwyr Stanley a'r iard gychod. Cafodd arwahanrwydd yr ardal hon ei dorri yn gyntaf gan barhad Newry Street drwodd i'r ffordd ar hyd y lan ac, yn ail, drwy sefydlu Prince of Wales Road fel llwybr drwodd o Victoria Road drwy Marine Square. Mae ymdeimlad cryf o hyd bod yr ardal hon ar wahân i weddill y dref, y mae'r rhan fwyaf ohoni yn dal i fod wedi'i lleoli y tu hwnt i Wal y Bwrdd Masnach.

*Mae tŷ'r bad achub, a adeiladwyd yn 1857 ar Draeth Newry, yn debyg i neuadd y farchnad sy'n dyddio o 1855 ac a adeiladwyd yn yr arddull Jacobeidd hefyd. Credir mai hwn yw'r tŷ bad achub pwrpasol hynaf yng Nghymru (© Hawlfraint y Goron (2019) Cadw, Llywodraeth Cymru).*



*Cartref ac ystafell ddarllen morwyr Stanley, a agorwyd yn 1871 ac a gynigiai lety i forwyr wedi'u llongdryllio (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Medwyn Parry).*



Yn wahanol i'r harbwr mewnlol, a oedd yn dibynnu ar gysylltiadau da tua'r tir i weithredu'n llwyddiannus ac a oedd wedi'i gysylltu'n agos â'r ffordd yn gyntaf ac wedyn y rheilffordd, datblygodd yr harbwr allanol fel harbwr noddfa yn hytrach na phorthladd ac nid oedd angen unrhyw gysylltiadau o'r fath arno ac eithrio'r rhai a oedd yn angenrheidiol i'w adeiladu. O ganlyniad, mae ychydig ar wahân i'r dref.

## Nodweddion Adeiladu

Mae'r morglawdd mawr yn nodedig am ei fod mor anferth ac oherwydd y technegau a ddatblygwyd pan oedd yn cael ei adeiladu. Cynhaliai twmpath o gerrig llanw wal ag wyneb o flociau calchfaen a ffurfiau gei a llwybr cerdded a oedd wedi'u hamddiffyn ar ochr y môr gan fur canllaw â chysgodfannau a oedd yn rhan o'r adeiladwaith. Roedd angorfeydd wedi'u diffinio gan set o risiau pâr a ddisgynnai i lefel y dŵr, pob un â'i phostyn angori ei hun. Mae nodweddion trafndiaeth amrywiol yn gysylltiedig â'r morglawdd yn ogystal â strwythurau eraill a oedd yn gysylltiedig â'i adeiladu, y mae pob un ohonynt yn grŵp pwysig o ddi-ddordeb archaeolegol diwydiannol. Mae llinell y rheilffordd a adeiladwyd i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r morglawdd a'r morglawdd dwyreiniol arfaethedig wedi goroesi yn y llwybr i Barc Gwledig y Morglawdd, Caergybi



a llinell Beach Road. Mae ategweithiau'r man croesi i Ynys yr Halen i'w gweld o hyd, yn ogystal â'r clawdd o gerrig llanw ar yr ynys a oedd yn nodi dechrau'r morglawdd nas gorffennwyd yno.

Mae llawer o'r adeiladau lled-swyddogol sy'n gysylltiedig â'r harbwr mewn arddull forol nodedig ac mae eu ffiniau wedi'u nodi'n glir fel clofannau ar wahân. Mae'r comisiynau preifat mawr sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r morglawdd yn rhodresgar yn bensaernïol. Saif Porth y Felin House a Soldier's Point o fewn gerddi helaeth, yr olaf gyda waliau terfyn castellaidd trawiadol.

*Adeiladwyd Porth-y-Felin, a elwir hefyd yn Government House, yn 1849 ar gyfer y peiriannydd preswyl, G. F. Dobson*  
(© *Hawlfraint y Goron: CBHC*).

*Mae'r cerdyn post hwn yn dangos tŷ crand Soldier's Point a adeiladwyd yn 1849 ar gyfer Charles Rigby, y contractwr ar gyfer y morglawdd mawr*  
(*Casgliad Peter Davis*).





## 9. London Road

### Cefndir Hanesyddol

Dim ond cyfres o ffermydd bach a bythynnod mewn clytwaith o gaeau bach a oedd i'w chael yn yr ardal i'r dwyrain o ganol y dref, ar ochr arall y gilfach lanw a'r nant, tan ymhell i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Goroesodd fferm Cae Tŷ Fychan rhwng London Road a'r rheilffordd tan ar ôl 1927, ac mae ysgubor sy'n gysylltiedig â'r fferm hon yno o hyd. London Road oedd y rhan olaf o'r ffordd rhwng Llundain

*Wian Street (brig) a Cecil Street (gwaelod) yw dwy o'r strydoedd pengaead byr i'r gogledd o London Road a adeiladwyd, o bosibl, ar safle chwarel gynharach (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



a Chaerdybi a adeiladwyd gan Telford rhwng 1815 a 1826. Mae'n debyg bod Cyttir Road yn cynrychioli ffordd gynharach a ddangosir ar fap y degwm. Mae map y degwm hefyd yn dangos sut mae London Road yn torri ar draws Cyttir Road a ffiniau caeau cynharach.

Er bod rhai adeiladau ar Black Bridge Road erbyn 1840, a oedd yn gnewyllyn diwydiannol bach pwysig (gan gynnwys Ffowndri Black Bridge), ni ddechreuwyd ar unrhyw waith datblygu ar hyd London Road mewn gwirionedd tan yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan fu'n rhaid ail-alinio'r llwybr gwreiddiol i groesi cledrau'r rheilffordd a oedd newydd gyraedd Caerdybi a darparu ar gyfer ei hystyn ar ôl hynny i'r harbwr newydd. Hyd yn oed wedyn, roedd y gwaith adeiladu yn wasgaredig a dim ond yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd y cafodd y llwybr ei hun ei ddatblygu'n systematig. I'r gogledd o London Road, yn ei phen gorllewinol, mae'n bosibl bod gweithgarwch chwarela yn mynd rhagddo ar y safle cyn i'r bloc o ddatblygiadau tai ymddangos mewn cyfres o strydoedd pengaead byr.

### Nodweddion Adeiladu

Mae'r unig deras a adeiladwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd wedi goroesi ym mhen London Road ger y bont reilffordd wedi cadw ei gorffeniad rendr hanesyddol, ond mae'r rhan fwyaf o'r manylion eraill wedi'u colli. Mae tai teras llai o faint yn y bloc o strydoedd



ger Black Bridge ('Little Newborough') yn dangos cymysgedd o ffryntiadau gwastad a ffenestri bae, ond maent wedi colli eu manylion bron yn llwyr. Mae gwaith datblygu sy'n dyddio o'r ugeinfed ganrif yn cynnwys tai pâr a adeiladwyd yn hapfasnachol a rhai tai awdurdod lleol, yr olaf mewn ystadau a ddatblygwyd ar dir i ffwrdd oddi

wrth y ffordd gan amlaf. Mae'r rhan fwyaf o'r tai wedi'u newid cryn dipyn a phrin yw'r manylion gwreiddiol sydd wedi goroesi. Fodd bynnag, mae i'r tai a adeiladwyd yn hapfasnachol ffurf gyffredinol gref a cheir rhai waliau terfyn da. Y tu ôl i'r tai ar ochr orllewinol London Road, mae wal derfyn y rheilffordd yn dal i fod yn nodwedd gref.



*Mae'r teras hwn yn cynnwys yr unig dai a adeiladwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar-bymtheg sydd wedi goroesi ar London Road. Maent wedi cadw eu gorffeniad rendr gwreiddiol (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Canol a chwith: Mae'r tai teras llai o faint yn y strydoedd byr i'r gogledd o London Road yn dangos cymysgedd o ffryntiadau gwastad a ffenestri bae (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

*Y gofeb a adeiladwyd i goffáu'r Capten John Macgregor Skinner (a fu farw yn 1832), capten y llong bost, a oedd yn 'distinguished for zeal, intrepidity and fidelity' (Drwy garedigrwydd Cyngor Sir Ynys Môn).*



*Plas Alltran, a adeiladwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel tŷ meddyg a meddygfa (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Ystad dai Turkey Shore gyda therfyna'r fferi y tu hwnt iddi (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



## 10. Turkey Shore a Morawelon

### Cefndir Hanesyddol

Ni ddatblygwyd y tir uwch uwchben y lan rhyw lawer tan yr ugeinfed ganrif. Mae map y degwm yn cofnodi patrwm o gaeau, sy'n amrywio o lain-gaeau a darnau bach iawn o dir i gaeau mwy o faint, sy'n cynnwys adeiladau bach gwasgaredig. Prin fu'r newid erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar wahân i'r gofeb a oedd wedi'i hadeiladu i goffáu'r Capten Skinner a'r ystad fach a oedd wedi'i chreu ym Mhlas Alltran (a oedd yn cynnwys tai, bythynnod a chanolfan), a oedd wedi'i lleoli ar gyfres o leiniau ymyl ffordd bach ac a ddisodlodd rai adeiladau cynharach. Dim ond ar ôl yr Ail Ryfel Byd y gwelwyd newid sylweddol mewn gwirionedd, pan gafodd yr ardal gyfan ei datblygu'n llwyr ar gyfer tai mewn cyfres o gynlluniau a gyflawnwyd gan yr awdurdod lleol. Ymysg y tai ceir un neu ddwy enghraifft o adeiladau cynharach sydd wedi goroesi a rhai waliau terfyn nodedig.

Aeth y gwaith o ddatblygu Turkey Shore ei hun rhagddo mewn cyfres o gamau gwahanol: roedd pier y de a'r doc sych yn rhan o brosiect yr harbwr cyntaf (tua 1810–26), a darparwyd y ffordd ei hun fel rhan o'r datblygiad hwn. Roedd adfer y lan ddwyreiniol a sefydlu ail ddoc sych yn gynnwys gwaith yn y 1870au.



## Nodweddion Adeiladu

Mae'r adeiladau sy'n gysylltiedig â Phlas Alltran ar Llanfawr Road yn ffurfio grŵp nodedig mewn arddull bictiwreŷg gref. Mewn manau eraill ar hyd y ffordd hon ceir rhai tai teras a adeiladwyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a rhai datblygiadau sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r

gwaith datblygu yn yr ardal hon yn dai awdurdod lleol sy'n dyddio o'r 1950au a'r 1960au mewn ystadau hunangynhwysol gyda siopau ac ysgol, ynghyd â rhai adeiladau hapfasnachol ar ben y bryn.

Mae'r wal derfyn sy'n gwahanu'r porthladd oddi wrth y dref fel ymyl ddi-dor, bron, i Turkey Shore Road yn nodwedd bwysig ar yr ardal hon.



*Mae ystad Plas Alltran gyda'i thalcenni grisiau brain nodedig yn ganolbwynt ar gornel Turkey Shore Road (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Chwith a chwith pellaf: Tai pictiwreŷg ger Plas Alltran (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*



*Mae'r wal sy'n gwahanu Turkey Shore Road oddi wrth y porthladd yn dal i fod yn ffin amlwg (© Hawlfraint y Goron: CBHC).*

# Datganiad arwyddocâd

Sicrhawyd ffyniant Caergybi fel tref gan ei rôl fel porthladd cenedlaethol, sydd wedi'i chyfuno mewn cyfres o osodiadau trawiadol sy'n gymesur â'i statws fel porthladd swyddogol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gosodiadau'r harbwr, uwchlaw popeth arall, sy'n rhoi ei natur unigryw i Gaergybi. Y morglawdd mawr yw'r morglawdd hiraf ym Mhrydain ac mae'n gamp peirianyddol gwych sy'n dystiolaeth rymus o bwysigrwydd masnach forol. Mae'r harbwr mewnol hefyd yn cynnwys grŵp balch o strwythurau o gryn ddiddordeb peirianyddol a phensaernïol. Yn gysylltiedig â'r harbwr mewnol a'r harbwr noddfa mae tirwedd gyfan o hanes peirianyddol a morol, sy'n cynnwys gosodiadau a systemau trafniadaeth a hwylusodd y gwaith o adeiladu a gweithredu'r ddau harbwr dros sawl cenhedlaeth. Roedd Caergybi ar ymyl y tir, ond roedd hefyd yn ganolbwynt i rwydwaith o gysylltiadau tua'r tir a thua'r môr.

Mae gan Gaergybi hanes sy'n ymestyn yn ôl ymhell cyn iddi ddod yn enwog fel porthladd. Mae olion y gaer Rufeinig a'r eglwysi canoloesol yn dystiolaeth o'i phwysigrwydd mewn cyfnodau cynharach, ond o'r braidd y gallai hawlio teitl tref tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Buddsoddiad yn yr harbyrau a ysgogodd dwf trefol cyflym. Mae ffurf a chynllun Caergybi yn dangos pa mor gyflym y tyfodd: nid yw caelun eithriadol byth yn bell o dan y strydoedd. Sicrhaodd cyflymder datblygiad y dref unffurfiaeth o ran patrwm adeiladau, ond cyfrannodd cymhlethdod cymdeithas y dref borthladd amrywiaeth at y mathau o adeiladau. Er bod cenedlaethau o waith adnewyddu wedi erydu llawer o'r manylion, mae llawer i'w weld o hyd ac mae hadau natur unigryw a wahaniaethai rhwng y naill stryd neu res a'r llall i'w gweld o hyd.

Er mwyn gweithredu Caergybi fel porthladd mawr roedd angen rhannu defnydd tir yn ardaloedd i ryw raddau ac mae'r harbyrau bob amser wedi bod ychydig ar wahân i'r dref ei hun. Efallai oherwydd y patrwm wedi'i etifeddu o ddefnydd tir y tyfodd y dref arno, roedd ffiniau hefyd yn amlwg o fewn y strwythur trefol, wrth i hen ffiniau oroesi rhwng strydoedd neu o amgylch adeiladau ac wrth i ffiniau newydd gael eu creu.

Mae'r waliau sy'n gwahanu'r naill ardal oddi wrth y llall, neu dai oddi wrth strydoedd, yn agwedd ar draddodiadau lleol sydd un mor bwysig â'r adeiladau eu hunain.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dathlwyd Caergybi am ei modernedd hyderus. Cafwyd rhai ymdrechion i'w gwreiddio'n fwriadol yn ei gorffennol, sydd wedi rhoi sawl adeilad nodedig i ni sy'n cyfeirio at hynafiaeth y dref, a saif ochr yn ochr â'i hynafiaethau go iawn. Ond mae'r hyn a oedd yn fodern bryd hynny bellach yn hanesyddol ei hun, ac erbyn hyn y nodweddion hynny a oedd yn sail i hunaniaeth Caergybi fel tref fodern yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw prif elfennau ei threftadaeth heddiw. Mae Caergybi yn borthladd gweithredol, ond mae hefyd yn dref hanesyddol: mae seilwaith hanesyddol y porthladd a'r dref yn ased sy'n haeddu cael ei gydnabod yn fwy.



# Ffynonellau Dethol

Anhysbys, *The Traveller's Companion from Holyhead to London* (Llundain, 1793).

Christopher Arnold a Jeffrey L. Davies, *Roman and Early Medieval Wales* (Stroud, 2000).

Barry C. Burnham a Jeffrey L. Davies, gol. *Roman Frontiers in Wales and the Marches* (Aberystwyth, 2010).

George Borrow, *Wild Wales: Its People, Language and Scenery* (Llundain, 1862).

William Cathrall, *The History of North Wales, Comprising a Topographical Description of the Several Counties*, Cyf. II (Manceinion, 1828).

Richard Haslam, Julian Orbach ac Adam Voelcker, *The Buildings of Wales, Gwynedd*, (New Haven a Llundain, 2009).

Cyngor Sir Ynys Môn, *Holyhead Central: Conservation Area Character Appraisal* (Llangefni, 2005).

Cyngor Sir Ynys Môn, *Holyhead Beach Area Conservation Area Character Appraisal* (Llangefni, 2005).

Thomas Jackson, *The Visitor's Hand-book for Holyhead* (Llundain, 1853).

Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).

D. Lloyd Hughes a Dorothy M. Williams, *Holyhead: the Story of a Port* (Dinbych, 1967).

Angela Hennessey, 'Holyhead 1845–1865: The Town, the People and the People's Health', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (2000), tudalennau 61–75.

*The National Gazetteer of Great Britain and Ireland* (Llundain, 1868).

E. Parry, *Parry's Railway Companion from Chester to Holyhead* (Llundain, 1848).

Thomas Pennant, *A Tour in Wales*, Cyf. II (cyhoeddwyd gyntaf Llundain, 1783; yr argraffiad hwn, Wrecsam, 1991).

*Slater's Royal, National and Commercial Directory of North and South Wales* (Manceinion, 1858–59).

*Slater's Royal, National and Commercial Directory North and South Wales* (Manceinion, 1868).

*Slater's Royal, National and Commercial Directory of North and South Wales* (1880).

Samuel Smiles, *Lives of the Great Engineers, with an Account of their Principal Works*, Cyf. II (Llundain, 1861).

Stena Line Ports, *Holyhead Harbour Conservation Plan*, 2003.

*The Travellers Companion from London to Holyhead* (Llundain, 1793).

Lucy Williams, 'Factors in the Culture of Pre-Railway Holyhead', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1940), tudalennau 93–99.

Lucy Williams, 'Remains of Fifteenth Century Domestic Building at Holyhead', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1946–47), tudalennau 271–72.

Lucy Williams, 'The Development of Holyhead', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1950), tudalennau 51–70.

John Marius Wilson, *Imperial Gazetteer of England and Wales, embracing recent changes in counties, dioceses, parishes, and boroughs: general statistics: postal arrangements: railway systems, &c.; and forming a complete description of the country* (Caeredin, Llundain, Glasgow, Delyn 1870–72). GB Historical GIS / Prifysgol Portsmouth, History of Holyhead in The Isle of Anglesey | Map and description, *A Vision of Britain through Time*.

URL: <http://www.visionofbritain.org.uk/place/507>  
 Dyddiad cyrchu: 01 Chwefror 2018  
<http://www.visionofbritain.org.uk/descriptions/760090>

# Ôl-nodion

1. Christopher Arnold a Jeffrey L. Davies, *Roman and Early Medieval Wales* (Stroud, 2000); Barry C. Burnham a Jeffrey L. Davies (gol), *Roman Frontiers in Wales and the Marches* (Aberystwyth, 2010).
2. John Marius Wilson, *Imperial Gazetteer of England and Wales, embracing recent changes in counties, dioceses, parishes, and boroughs: general statistics: postal arrangements: railway systems, &c.; and forming a complete description of the country* (Caeredin, Llundain, Glasgow, Dulyn, 1870–72). Prifysgol Portsmouth, History of Holyhead in The Isle of Anglesey | Map and description, A Vision of Britain through Time. URL: <http://www.visionofbritain.org.uk/place/507>  
Dyddiad cyrchu: 01 Chwefror 2018  
<http://www.visionofbritain.org.uk/descriptions/760090>
3. Richard Haslam, Julian Orbach ac Adam Voelcker, *The Buildings of Wales, Gwynedd* (New Haven a Llundain, 2009).
4. D. Lloyd Hughes a Dorothy M. Williams, *Holyhead: the Story of a Port* (Dinbych, 1967).
5. Francis Place, dyfrlliw dyddiedig 1699 a atgynhyrchwyd yn *Holyhead Central Conservation Area Appraisal* (Llangefni, 2005). <http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2011/09/28/Holyhead-Central-Appraisal2.pdf>
6. Ymddengys braslun Lewis Morris yn *Cambria's Coasting Pilot*, Holy Head Bay (map 3), 1737. Fe'i hatgynhyrchir hefyd yn *Holyhead Central Conservation Area Appraisal* (Llangefni, 2005). <http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2011/09/28/Holyhead-Central-Appraisal2.pdf>
7. Yn 1784, yn ôl Mr Walpole, 'the village consists of a straggling confused heap of thatched houses built on rocks' yn *The Visitor's Hand-book for Holyhead* gan Thomas Jackson, (Llundain, 1853).
8. *The Travellers Companion from London to Holyhead* (Llundain, 1793).
9. Thomas Pennant, *A Tour In Wales*, Cyf. II (Llundain, 1783).
10. D. Lloyd Hughes a Dorothy M. Williams, *Holyhead: the Story of a Port* (Dinbych, 1967); Lucy Williams, 'The Development of Holyhead', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (1950), tudalennau 51–70.
11. Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).
12. Pigot and Co.'s *National Commercial Directory for 1828–9, Comprising a Directory of the Merchants, Bankers, Professional Gentleman [&c.] in the Counties of Cheshire, Cumberland [&c.], 1828.*
13. Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).
14. Jonathan Swift, Holyhead Journal, 25 Medi 1827 a atgynhyrchwyd yn *Holyhead Central Conservation Area Appraisal* (Llangefni, 2005). <http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2011/09/28/Holyhead-Central-Appraisal2.pdf>
15. Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).
16. E. Parry, *Parry's Railway Companion from Chester to Holyhead* (Llundain, 1848).
17. Thomas Jackson, *The Visitor's Handbook for Holyhead* (Llundain, 1853).



18. Ibid.
19. Peter E. Baughan, *The Chester & Holyhead Railway Volume 1: The Main Line up to 1880* (Newton Abbot, 1972).
20. E. Parry, *Parry's Railway Companion from Chester to Holyhead* (Llundain, 1848).
21. Thomas Jackson, *The Visitor's Handbook for Holyhead* (Llundain, 1853).
22. Ibid.
23. The National Gazetteer of Great Britain and Ireland (Llundain, 1868).
24. Ibid.
25. Angela Hennessey, 'Holyhead 1845–1865: The Town, the People and the People's Health', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society and Field Club* (2000), tudalennau 61–75.
26. John Marius Wilson, *Imperial Gazetteer of England and Wales, embracing recent changes in counties, dioceses, parishes, and boroughs: general statistics: postal arrangements: railway systems, &c.; and forming a complete description of the country* (Caeredin, Llundain, Glasgow, Dilyn, 1870–72). GB Historical GIS / Prifysgol Portsmouth, History of Holyhead in The Isle of Anglesey | Map and description, A Vision of Britain through Time. URL: <http://www.visionofbritain.org.uk/place/507>  
Dyddiad cyrchu: 01 Chwefror 2018
27. *The National Gazetteer of Great Britain and Ireland* (Llundain, 1868).
28. Lucy Williams, 'Remains of Fifteenth Century Domestic Building at Holyhead', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1946–47), tudalennau 271–72.
29. George Borrow, *Wild Wales: Its People, Language and Scenery* (Llundain, 1862).


## I Map y degwm o Gaergybi, tua 1840




Darparwyd map y degwm gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.



## 2 Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans 1899




### 3 Pob Ardal â Nodweddion






## 4 Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau Hanesyddol






## 5 Y Canol: Y Craidd Trefol (I)






## 6 Y Canol: Datblygiadau Preswyl (2)






## 7 I'r Gogledd o Ganol y Dref (3)






## 8 Gorllewin a De-orllewin Caergybi (4)





## 9 De Caergybi a Kingsland (5)






## 10 Porth-y-Felin a Gogledd Caergybi (6)




## II Ynys yr Halen a'r Harbwr Mewnol (7)






## 12 Yr Harbwr Allanol, Soldier's Point a'r Lan Ogleddol (8)



### 13 London Road (9)





## 14 Turkey Shore a Morawelon (10)

